

YSGOL GYFUN GYMRAEG
BRO MYRDDIN



**LLAWLYFR
LLWYBRAU DYSGU
Y CHWECHED
DOSBARTH**



L
L
A
W
L
Y
F
R
Y
C
H
W
E
C
H
E
D
D
O
S
B
A
R
T
H

CYFLWYNIAD Y PENNAETH

Ysgol Gyfun Gymraeg

BRO MYRDDIN

Welsh Comprehensive School



Croesyceiliog

Caerfyrddin / Carmarthen

SA32 8DN

Ffôn / Tel: (01267) 234829

E-bost / E-mail:

swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk

Pennaeth / Headteacher : Dr Llinos Jones

Annwyl ddisgybl,

Mae'r ffaith eich bod wedi derbyn copi o'r llyfryn hwn yn arwydd bod carreg filltir bwysig yn eich gyrfaddysgol yn agosau.

Pwrpas y llyfryn hwn yw rhoi arweiniad i'r rhai ohonoch sydd yn bwriadu parhau a'ch addysg llawn amser, trwy amlinellu y cyrsiau byddwn yn eu cynnig yma yn yr ysgol.

Mae dewis cyfuniad addas o gyrsiau yn allweddol bwysig ar gyfer eich dyfodol. Dyma mwy na thebyg y penderfyniad a fydd yn llywio eich gyrfaddys. Rhaid dewis yn ddoeth, a bod yn barod i dderbyn cyngor y rhai sydd yn eich adnabod orau—eich athrawon pwnc.

Ein nod yw sicrhau eich bod yn dewis y cwrs a'r cyfuniad pynciau sydd orau ar eich cyfer, sydd yn addas ar gyfer eich safon academiaidd ac sydd yn rhoi llwybr i'ch arwain naill ai at goleg neu brifysgol neu at swydd. Rydym yn medru

cynnig ystod eang o bynciau yma yn yr ysgol, ac rydym bob amser

yn barod i ystyried ffyrdd o ganiatau i ddisgyblion ddilyn pynciau eraill

nad ydym ar hyn o bryd yn eu cynnig. Cewch arweiniad ac anogaeth yn ystod eich

cwrs gan diwtoriaid dosbarth a phwnc sydd yn eich adnabod yn dda ac sydd bob amser o

fewn cyrraedd i'ch cyngori. Ond yn fwy na hynny, cewch gyfle i barhau a'ch astudiaethau

trwy gyfrwng y Gymraeg, i fyw eich bywyd trwy gyfrwng yr iaith honno ac i gyfrannu at fywyd

diwylliannol eich ysgol a'ch bro.

Gobeithio y byddwch yn barod i fanteisio ar y cyfle hwnnw, ac i gyfranogi yn llwyddiant yr ysgol.

Yn gywir iawn,

Llinos Jones

Dr Llinos Jones
Pennaeth



DYFYNIADAU GAN Y CHWECHED

Ni allwn fod wedi
cael profidau gwella
yn unman arall!

Mared Davies

Rhyddid galôr, gwaith
i'w wneud, partion i'w
mwynhau

Elin Davies

Blynyddoedd gorau yr
ysgol yng nghwmni pobl
gwyb.

Nia Evans

Llawer o ryddid
a llawer o waith!

Cerys Wyn

Cyfle gwyb i
gymdeithasu a
mwynhau partion
gyda ffrindiau
newydd!

Sam Edwards



Chweched Dosbarth
Bro Myrddin

Siawns i fod yn
annibynol a
chael profiadau
newydd

Alice Morris

Cyfle gwyb i
gymdeithasu a gwneud
ffrinidiau newydd

Caryl Jones

Anadlu mewn trwy eich
trwyn – 5 eiliad.
Anadlu allan trwy eich
ceg – 7 eiliad.
Lleihau stress!

Ché Thomas

Cyfle i ddatblygu
hyder ymhellach ac
agor drysau i'r
dyfodol

Cerys Davies

Mwy o ryddid.
Mwy o bartis.
Mwy o hwyl a
sbri...ond
gwaith sydd
bwysicaf.

Annie Thomas



PAM Y CHWECHED YM MRO MYRDDIN?

- Mae hi'n ysgol deuluol, Gymreig ei naws lle mae pawb yn gwybod eich enw ac yn sicrhau eich bod yn cyrraedd eich llawn botensial yn academiaidd ac yn bersonol.
- Cewch gynnig amrywiaeth o gyrsiau, cymwysterau a chyfleoedd personol i ddatblygu'n unigolyn aeddfed.
- Byddwch yn dysgu, datblygu a mireinio sgiliau personol o bob math er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer eich dyfodol.
- Bydd cyfle i arwain, boed fel Prif Ddisgybl, Swog yn Llangrannog ar gwrs anwytho Blwyddyn 7, Capten Llys, Mentor neu gyfrifoldeb am glwb neu weithgaredd arbennig. Cewch gyfrannu at fywyd allgyrsiol byrlymus yr ysgol.
- Byddwch yn gweithio gyda'ch cyfoedion a gyda thîm o diwtoriaid profiadol ac ymroddedig.
- Byddwch yn cael eich paratoi'n drylwyr ar gyfer addysg uwch.
- Bydd ein Swyddog Gyrfau, Mr. John Selby ar gael i drafod eich dyfodol, boed ym myd gwaith neu Addysg Uwch.
- Bydd gennych diwtor dosbarth drwy gydol eich gyrfa yn y Chweched, a bydd y berthynas yma yn fuddiol iawn wrth i'r rhai sy'n eich adnabod ysgrifennu eich geirda neu eich tysteb ar gyfer ffurflenni U.C.A.S ac wrth gwrs byddant yn cynnig cyngor, a chymorth moesol ac emosiynol.
- Cewch fwynhau bwrlwm diwylliannol ein hysgol a bod yn rhan o brofiadau cymdeithasol er mwyn datblygu i fod yn berson ifanc sy'n rhoi o'i orau yn academiaidd ac yn cyfrannu at fywyd a chalon yr ysgol.



- Cewch gyfle i weithio gyda chyfoedion o ysgolion arall, sef Y Strade a Maes Y Gwendraeth, yn ystod gwersi y Bartneriaeth Addysg Gymraeg.
- Bydd Lolfa'r Chweched a Panedini ar gael ichi ymlacio.
- Bydd addysg ddwyieithog yn fantais sylweddol wrth i chi chwilio am swyddi yn y dyfodol. Hefyd bydd eich dwyieithrwydd yn eich helpu i ddysgu ieithoedd eraill yn haws ac i werthfawrogi eich treftadaeth ac wrth gwrs i fod yn werthfawrogol o ddiwylliannau eraill.



CYRSIAU'R CHWECHED DOSBARTH

Ym Mlwyddyn 11, ceir arolwg pynciol cyffredinol er mwyn sicrhau bod y dewisiadau a gynigir yn gweddu i bawb, Cynhelir Noson Opsiynau ac yn dilyn arolwg cyffredinol arall crëir colofnau opsiwn. Mireinir y rhain yn ychwanegol er mwyn ceisio gwaredu gorgyffwrdd pynciol.

Cyrsiau a gynigir yn yr ysgol:

- Bagloriaeth Cymru (pwnc gorfodol)
- Cyrsiau Uwch Gyfrannol(UG) a Safon Uwch (U2)
- Safon Uwch Galwedigaethol
- BTEC
- Cyrsiau Galwedigaethol Lefel 2
- Cyrsiau Ail Sefyll TGAU
- Gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- Cwrs Anelu yn Uwch – darperir gan Prifysgol Y Drindod Dewi Sant



Fel arfer mae myfyrwyr yn astudio Bagloriaeth Cymru a 3 pwnc dewisol ym Mlwyddyn 12 ac yna yn canolbwyntio ar Bagloriaeth Cymru a 2 bwnc dewisol Mlwyddyn 13.

Bydd yr holl gymwysterau – Bagloriaeth Cymru, cyrsiau UG/U2, cyrsiau galwedigaethol a BTEC yn ennill pwyntiau UCAS a fydd yn cyfrannu at fynediad i'r Coleg neu Brifysgol Addysg Uwch. Defnyddir y system hon gan Brifysgolion a Cholegau i ddewis myfyrwyr. Nodir isod y nifer o bwyntiau a wobrwyr ar gyfer y graddau gwahanol.

Tariff Pwyntiau UCAS

BAC	Lefel AS	Lefel A	Pwyntiau Tariff Newydd	Diploma BTEC
			112	D*D*
			104	D*D
			96	DD
			80	DM
			64	MM
A*		A*	56	
A		A	48	MP
B		B	40	
C		C	32	PP
			28	
D		D	24	
	A		20	
E	B	E	16	
	C		12	
	D		10	
			8	
	E		6	

Bydd Prifysgolion a Cholegau yn cynnig llefydd i fyfyrwyr ar yr amod bod yr ymgeiswyr yn ennill naill ai graddau penodol yn yr arholiadau e.e. **BCC neu pwyntiau penodol e.e. 112pwynt**





DEWIS



RHESYMAU DROS DDEWIS ASTUDIO PYNCAU YN YR YSGOL



✓ Rhesymau dilys

- ✓ Diddordeb yn y pwnc.
- ✓ Angen y pwnc ar gyfer cwrs prifysgol
- ✓ Amser i benderfynu ar yrfa
- ✓ Gwell gobeithion i'r dyfodol
- ✓ Gwell gyrfa



✗ Rhesymau gwael

- ✗ Ffrindiau yn dychwelyd i'r ysgol
- ✗ Pwysau o'r cartref
- ✗ Dim byd gwell i'w wneud!



Dewis y pwnc cywir

Ystyriwch y canlynol:

- Lefel eich diddordeb a mwynhad yn y pwnc
- Lefel eich gallu yn y pwnc
- Gofynion eich gyrfa yn y dyfodol;
e.e. Meddygaeth, Y Gyfraith, Milfeddygaeth
- Dewis 4 pwnc sydd a cydbwysedd ac ehangder



ELFENNAU RHAGLEN Y 6ED DOSBARTH

Dyletswyddau a chyfrifoldebau

- | | |
|-------------------------------------|---------------------|
| ➤ Pwyllgor y 6ed | ➤ Gwaith gwirfoddol |
| ➤ Cyrsiau Preswyl yn y Prifysgolion | |
| ➤ Chwaraeon | ➤ Pwyllgor dyngarol |
| ➤ Swyddogion | ➤ Urdd |
| ➤ Tiwtoriaid Personol | ➤ Profiad Gwaith |



RHEOLI AMSER

Gwaith ysgol

Ymlacio

Diddordebau

Teulu

Swydd
penwythnos




Gwaith
gwirfoddol




MAE DOD NÔL I'R YSGOL YN FRAINT AC YN GYFRIFOLDEB



AT BWY I DROI? / TIWTORIAID



TIWTORIAID Y CHWECHED DOSBARTH



Fe fyddwch yn cael eich cofrestru mewn 3 neu 4 grŵp a bydd eich Tiwtor Dosbarth yn bwynt cyswllt i chi tra byddwch yn y Chweched Dosbarth.

Eich Tiwtor Dosbarth yw eich cyswllt cyntaf. Gallwch droi atynt am gyngor cyffredinol am waith neu broblemau personol, cyn cael eich cyfeirio at Bennaeth y Chweched.



O Fedi 2015 bydd yn orfodol i bob myfyriwr yn y Chweched Dosbarth ddilyn rhaglen astudio sy'n cynnwys Bagloriaeth Cymru. Yn ogystal, disgwylir i fyfyrwr ddewis o leiaf 3 pwnc UG (AS) ym Mlwyddyn 12. Parha myfyrwyr i astudio Bagloriaeth Cymru ym Mlwyddyn 13 ond gall ddisgybl ddewis arbenigo mewn llai o bynciau, hyd at isafswm o 2 Lefel A.

Er mwyn dilyn y rhaglen hon, disgwylir i fyfyrwyr fod wedi ennill graddau A* i C mewn o leiaf 5 TGAU, gan gynnwys Cymraeg Iaith a/neu Saesneg Iaith, Mathemateg ac unrhyw ddau neu dri phwnc arall. Os nad ydy myfyriwr yn llwyddo i wneud hyn bydd yn rhaid cyflwyno cais at Bennaeth yr ysgol yn gofyn am ganiatâd i ddychwelyd i'r Chweched Dosbarth. Rhoddir cyfleoedd i fynychu gwersi ail sefyll ar gyfer Cymraeg, Saesneg a Mathemateg os nad ydy disgybl wedi llwyddo i ennill gradd C yn y pynciau hyn.

Fe rennir pob cwrs yn y Chweched Dosbarth mewn unedau. Astudir rhai unedau ym Mlwyddyn 12 a'r gweddill ym Mlwyddyn 13. Disgwylir bod myfyrwyr yn pasio arholiadau UG gan gael gradd A i E cyn cael caniatâd i astudio Lefel A ym Mlwyddyn 13. Cynhelir arholiadau ac asesiadau allanol ym mis Mehefin.

Fel y gwelwch, mae gennym amrywiaeth eang a diddorol o bynciau:

- Addysg Gorfforol
- Astudiaethau Crefyddol
- Bagloriaeth Cymru
- Busnes (BTEC)
- Bioleg
- Celf
- Cemeg
- Cerddoriaeth
- Cymdeithaseg
- Cymraeg (Iaith Gyntaf)
- Daearyddiaeth
- Drama
- Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch
- Electroneg *
- Ffiseg
- Ffrangeg*
- Gofal Plant (Lefelau 2 a 3) *
- Gwasanaethau Cyhoeddus *
- Gwleidyddiaeth a Llywodraeth
- Gwyddor Bwyd a Maeth
- Gwyddor Feddygol
- Hanes
- Iechyd a Gofal
- Mathemateg
- Mathemateg Ychwanegol
- Saesneg (Llênnyddiaeth)
- Sbaeneg *
- Seicoleg *
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Troseddeg



Mae'r pynciau gyda * yn dynodi'r rhai sy'n cael eu cynnig mewn partneriaeth gydag ysgolion eraill ac sy'n cael eu dysgu gyda chyfuniad o wersi ar safle'r ysgol neu mewn canolfan arall.

CWRS ANWYTHO / PRESENOLDEB



Rydyn ni fel ysgol yn ceisio sicrhau bod y trosglwyddiad o Flwyddyn 11 i'r Chweched Dosbarth yn un hwylus a diffwdan. Byddwch yn derbyn cyngor a gwybodaeth gan Benaethiaid Adran er mwyn dewis y pynciau addas.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf yn y Chweched, caiff y myfyrwyr gyfarwyddyd manwl ar sut i addasu i'r newidiadau academiaidd a chymdeithasol a ddaw i'w rhan yn ystod eu taith yn y Chweched.

Gwelwch isod weithgareddau a drefnir gennym i gynorthwyo'r trosglwyddo i'r Chweched Dosbarth:

Tachwedd

Cyfarwyddyd i ddisgyblion Blwyddyn 11 am yrfaeod a chysiau yn y Chweched Dosbarth. Arolwg 1- Dewisiadau Pynciol

Rhagfyr i Mawrth

Cynhelir nifer o arolygon dewisiadau pynciol pellach yn ystod y cyfnod hyn. Mae hefyd Noson Opsiynau ar gyfer darpar fyfyrwyr y Chweched Dosbarth a'u rhieni. Bydd y noson hon yn gyfle gwyh i glywed y Pennaeth, Pennaeth y Chweched a Phenaethiaid Adran yn rhannu gwybodaeth am y cyrsiau UG a Lefel A ac mae'n gyfle am drafodaeth anffurfiol.

Awst

Canlyniadau T.G.A.U a chyfle i drafod dewisiadau pynciol neu gwrs gydag aelodau o'r Uwch Dîm Arwain, Pennaeth ac Is-Bennaeth y Chweched Dosbarth, Pennaethiaid Adran a'r Swyddog Gyrfau.

Medi

Dechrau Blwyddyn 12.
Cwrs Anwytho.
Diwrnod Adeiladu Tîm.

Hydref

Arfarnu dewis o'r cyrsiau dewisedig fel rhan o'r rhaglen fentora.

Presenoldeb a Phrydlondeb

➤ Disgwylir presenoldeb cyson a phrydlondeb i gofrestru, ar Ddyletswydd, i wersi, i wasanaeth ac i gyfarfodydd. Byddwch yn cofrestru yn y drefn arferol. Rhaid arwyddo i fewn ac allan os ydych chi'n hwyr yn cyrraedd, neu'n gadael yn gynnar. Rhaid cael caniatâd aelod o'r Uwch Dîm Arwain i adael y safle ar bob achlysur.

➤ Disgwylir i chi gyflwyno llythyr yn egluro pob absenoldeb. Dylech roi gwybod ymlaen llaw i'ch Tiwtor Cofrestru os ydych chi'n mynd i fod yn absennol ar gyfer gweithgaredd sydd wedi ei chymeradwyo gan yr ysgol neu gwrs arbennig.

➤ Dylid osgoi gwneud apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol yn ystod oriau ysgol. Bydd eich presenoldeb yn cael ei fonitro'n ofalus ac fe gysylltir adref mewn achos o bryder am bresenoldeb.



SALWCH NEU WYLIAU

Nid oes hawl trefnu gwyliau yn ystod amser ysgol ac ni fyddwch yn derbyn caniatâd y Pennaeth er mwyn gwneud. Os yn sâl, rhaid cysylltu â'r ysgol yn syth, yn dilyn y drefn arferol. Dylid rhoi gwybod i athrawon pwnc ymlaen llaw os ydych chi'n ymwybodol y byddwch yn absennol o flaen llaw. Mae gwersi rhydd yn y Chweched Dosbarth ac felly ni ddylid colli gwersi pwnc i fynychu apwyntiad arferol meddygol neu ddeintyddol.

MONITRO CYNNYDD MYFYRWYR

Ffeiliau IAP

Y myfyrwyr eu hunain fydd yn gyfrifol am gadw'r ffeiliau yma yn gyfredol ar hyd eu taith yn y Chweched Dosbarth. Bydd y ffeiliau cynnydd yma'n cynnwys gwybodaeth y gwersi ABCH a Thiworial, gwybodaeth am ddiddordebau a chyraeddiadau personol, gweithgareddau allgyrsiol, gwerthusiad o brofiad gwaith y myfyriwr a'r cyflogwr. Ynddynt ddylem weld tystysgrifau Lefel TGAU a chasgliad o dystiolaeth o'u prysurdeb a'u cyflawniad yma yn yr ysgol boed yn llun mewn papur newydd, yn dystysgrif neu'n lythyr o ddiolch. Bydd y ffeilia'n cael eu cadw gan y Tiwtor personol, ac yn cael eu dychwelyd ar ddiwedd Blwyddyn 13. Bydd y ffeiliau yma yn ffordd o'r Tiwtor ddod i adnabod y myfyriwr yn fwy trylwyr ac yn sail i drafodaeth ddiddorol. Cofiwch fod ambell Brifysgol yn hoff o weld cofnodion o'r math yma, efallai y bydd yn rhaid i chi fynd a'r ffeil i gyfweiliad.

ADRODDIADAU

Mae Pennaeth ac Is-Bennaeth y Chweched Dosbarth, mewn cydweithrediad gyda Tiwtoriaid y Chweched ac athrawon pwnc yn monitro presenoldeb, agwedd at waith a chyrhaeddiad myfyrwyr yn gyson.

Adroddir dwywaith y flwyddyn ar gynnydd myfyrwyr, unwaith mewn adroddiad ysgrifenedig ac unwaith yn ystod Noson Rhieni. Dosberthir yr adroddiadau ysgrifenedig trwy law'r myfyriwr a bydd myfyrwyr a rhieni yn cael cyfle i wneud sylwadau ar yr hyn a ysgrifennwyd. Bydd y Noson Rhieni hyn yn gyfle i staff rannu gwybodaeth am gynnydd neu unrhyw broblem.

Gellid cysylltu â'r Pennaeth Blwyddyn unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn i drafod pryderon.

ARHOLIADAU

- Bydd myfyrwyr yn sefyll yr arholiadau yn yr ysgol.
- Heblaw am amgylchiadau arbennig, rhaid i fyfyrwyr fod yn bresennol am o leiaf 90% o wersi er mwyn cyfiawnhau cofrestriad ar gyfer modiwl.
- Rhaid glynu at ddyddiadau cau gwaith cwrs.
- Bydd yn rhaid i fyfyrwr dalu am bob arholiad y mae'n dymuno eu hail sefyll.
- Rhaid gwisgo gwisg ysgol llawn i bob arholiad UG a Lefel A.



LLÊN-LADRATA / LWFANS

LLÊN-LADRATA

Gwaith personol pob myfyriwr unigol fydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer pob asesiad. Does gan neb yr hawl i gopïo geiriau neu ddatgan barn a syniadau rhywun arall a hawlio mai ei barn bersonol ydyw. Llên-ladrad yw hyn ac mae'n fater difrifol.

Y Bwrdd Arholi fydd yn penderfynu ar y gosb mewn achosion o lôn-ladrata ond fe allwch gael eich diarddel a chael eich gwahardd rhag cofrestru ar gyfer yr arholiadau am gyfnod o amser.



Mae llên ladrata neu gopïo rhannau o Ffurflen UCAS rhywun arall hefyd yn fater difrifol. Mae gan UCAS system o adnabod hyn ac mae e'n gweithio. Bydd y posibilrwydd o gael eich gwrthod i'r cwrs yn un real.

CEFNOGAETH ARIANNOL YN Y CHWCHED

Lwfans Cynnal Addysg (EMA)

Bydd cyfle i gael mynediad i'r lwfans yma ar sail cyflog rhieni. Os yn gymwys, rhoddir lwfans i fyfyrwyr yn syth mewn i'w cyfrif banc.

Rhoddir tâl bonws dair gwaith. Mae derbyn y tâl yn dibynnu ar bresenoldeb, gwaith academiaidd ac ymddygiad myfyriwr.

GWAITH GWRIFODDOL

A BYWYD YN Y CHWECHED

Yn yr ysgol brysur hon, cewch y cyfle i fod yn rhan o fwrllwm y gweithgarwch ac i ymuno yn yr hwyl. Mae cyn-ddisgyblion bob amser yn cofio'r elfen hon o fywyd yn y Chweched Dosbarth.

Mae cyfle i ymuno gyda chorau hŷn yr ysgol a gweithgareddau'r Urdd, ynghyd â sioeau cerdd yr ysgol gyfan, lle byddwch yn cael y cyfle i berfformio neu helpu ar agwedd dechnegol. Mae'r gweithgareddau hyn yn draddodiadol gryf yma, ond maent yn dibynnu ar eich ymroddiad a'ch cyfraniadau chi.



Disgwylir i fyfyrwyr arwain drwy esiampl, i fanteisio ar y cyfle i hyfforddi'r disgyblion iau mewn chwaraeon, i fod yn fentor neu chymryd rhan o dimoedd chwaraeon llwyddiannus yr ysgol. Mae amser yn prysur ddiflannu yn y Chweched Dosbarth, felly manteisiwch ar bob cyfle.

GWAITH GWIRFODDOL

Gallwch gyfrannu i'r gymuned yn ogystal drwy gyflawni gwaith gwirfoddol mewn mudiadau elusennol lleol. Mae'r mudiadau canlynol i enwi ond ychydig wedi bod yn rhan o gyfraniad ein Chweched i'r gymuned ar hyd y blynyddoedd.



Bydd hyn yn gyfle i chi ehangu sgiliau o bob math, ac mae'n brofiad y byddwch yn mwynhau.



CLYBIAU A PHWYLLGORAU

Daw'r cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau arwain a chydweithio drwy ymddiddori mewn clwb, trefnu gweithgareddau neu bod yn rhan o bwyllgor. Gallwch gyfrannu mewn modd ymarferol mewn clybiau e.g. y Clwb Ffilmiau, y Clwb Celf a llawer mwy. Bydd cyfle i fod yn rhan o Bwyllgor Dyngarol yr ysgol lle fydd eich gwaith yn codi arian neu'n codi mwybyddiaeth o achosion arbennig yn brofiad gwych i chi i arwain a chydweithio trwy fod yn weithredol yn yr ysgol.



Bydd Pwyllgor y Chweched yn fforwm defnyddiol i chi gynnig syniadau ar gyfer dyfodol y Chweched a chynnig syniadau ar welliannau.

Mae'r Pwyllgor Gwasanaeth yn brysur hefyd yn trefnu a pherfformio gwasanaethau diddorol ar gyfer yr ysgol gyfan. Manteisiwch ar y cyfle i gyfrannu.

Mae cyfle hefyd i chi fwynhau drwy gyfrannu at:

Y Ffair Nadolig
Pantomeim Blwyddyn 12
Cynllun Mentoriaid
Gweithdy rhifedd
Cwrs Pontio Llangrannog
Gweithgareddau'r Urdd
Hyfforddi ar gyfer yr Eisteddfod ysgol
Hyfforddi timoedd chwaraeon



Gwaith y Swyddogion:

- Capteiniaid Llys
- Uwch Swyddogion
- Swyddogion y Chwched Dosbarth
- Cyngor Ysgol
- Aelod o Bwyllgor
- Rhaglenni Mentora ac Addysgu Cyfoedion
- Cyfrannu at wasanaethau'r ysgol
- Goruchwyliwr dyletswyddau
- Arwain trwy esiampl mewn gweithgareddau amrywiol



Meini Prawf allweddol:

- Cymreictod. Cymraeg yw iaith naturiol a swyddogol yr ysgol ac mae disgwyl i bob myfyriwr sydd yn dewis dychwelyd i'r ysgol i astudio yn y Chwched Dosbarth i wneud eu gorau i hybu Cymreictod ym mhlith eu cyd-ddisgyblion. Mae yn orfodol iddynt siarad Cymraeg ar bob achlysur o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi. Rhaid iddynt hefyd ystyried eu cyfrifoldeb o ddangos arweiniad i ddisgyblion iau trwy wneud defnydd o'r iaith Gymraeg a dangos parch at werthoedd ac ethos Cymreig yr ysgol.
- Agwedd.
- Cydymffurfio â pholisïau'r ysgol.

Meini Prawf Cyffredinol:

- Y gallu i arwain tîm
- Y gallu i drefnu
- Dangos diddordeb / Profiad / Blaengaredd
- Cyflawni Dyletswyddau'n effeithiol
- Dangos dawn ileithyddol / cerddorol / cyfrifiadurol
- Dangos parodrwydd i gyfrannu

Ethol Prif Swyddogion

Ar ddiwedd Blwyddyn 12, cynhelir etholiad i flwyddyn 12 a staff. Bydd y chwe myfyriwr gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn ysgrifennu llythyr cais at Benaethiaid y Chwched yn egluro pam ei f/bod yn addas ar gyfer y swydd.

Bydd cyfweiliad anffurfiol gyda'r Prifathro a Phenaethiaid y Chwched i ddarganfod yr ymgeiswyr mwyaf priodol.

- Bydd 1 Prif Ferch ac 1 Prif Fachgen
- 2 Ddirprwy Prif Ferch a 2 Ddirprwy Prif Fachgen.

Bydd y tîm yma yn gyfrifol am gynnal safonau yn y Chwched Dosbarth, arwain drwy esiampl a phontio rhwng yr ysgol iau a'r ysgol uchaf ac wrth gwrs cydweithio gyda staff i greu Chwched Dosbarth y bydd pawb yn falch ohoni.



Prif Fachgen a Phrif Ferch

- a) Cydweithio gyda'r Penaethiaid Blwyddyn, yr Uwch Swyddogion a'r Swyddogion i sicrhau cyfraniad aelodau'r Chweched at fywyd yr ysgol am ddwy flynedd.
- b) Hysbysu'r Penaethiaid Blwyddyn o unrhyw broblem fydd yn codi.
- c) Cyfrifoldeb am y tîm dyletswyddau. Cynorthwyo i greu amserlen ddyletswyddau, gwirio presenoldeb y Swyddogion a hysbysu'r Penaethiaid Blwyddyn am unrhyw aelod nad ydynt yn cyflawni eu dyletswyddau.
- ch) Disgyblaeth yn y Lolfa. Sicrhau rota i gadw'r ystafell yn lân. Hysbysu'r Penaethiaid Blwyddyn am unrhyw ddifrod a diffyg cyd-dynnu.
- d) Cynorthwyo i gynnal gweithgareddau allgyrsiol. Annog B.12/13 i fynychu'r côr a gweithgareddau llys a chwaraeon.
- dd) Cynrychioli'r ysgol mewn Cyfarfodydd Cyhoeddus e.e. Noson Wobrwy.
- e) Cadeirio cyfarfodydd Pwyllgor y Chweched.
- f) Sicrhau bod yr Uwch-swyddogion yn cwblhau'r gwaith a nodwyd yn y disgrifiadau swyddi.

Dirprwy Prif Swyddogion

Fel Uwch Swyddogion, disgwylir i chi i gyflawni'r dyletswyddau canlynol ond gallwch fel tîm rhannu'r cyfrifoldebau yn ôl talentau'r unigolion.

Swydd 1

- a) Ysgrifennydd Pwyllgor Bl. 12/13 (Ffeil wrth y Pennaeth Blwyddyn) Cadw a throsglwyddo cofnodion i'r Penaethiaid Blwyddyn ar ôl pob cyfarfod.
- b) Rhoi gwybodaeth am weithgareddau llwyddiant Bl12/13 i Swyddog Marchnata'r ysgol.
- c) Swyddog arddangos sy'n sicrhau bod hysbysfyrddau'r Lolfa yn gyfredol. Cysylltu gyda staff penodol ar gyfer achlysuron penodol e.e. Mrs. Gwenan Morgans ein Swyddog Marchnata a gyda Mrs. John er mwyn trefnu tîm i gynorthwyo'r gyda 'r Noson Wobrwy.

Swydd 2

- a) Cyd-arweinydd gyda gweddill tîm yr Uwch Swyddogion yn gyfrifol am y **Clybiau/Pwyllgorau**. Yn gyfrifol am gadw rhestrau cyfredol o'r Chweched sy'n cyfrannu, hybu ymwybyddiaeth, cadw prysurdeb yn y clybiau amser cinio.
- b) Cyd-arweinydd y **Pwyllgor** Dyngarol. Cydweithio gyda Mrs Rhian Carruthers er mwyn cadw rhestr o'r aelodau, cadw cofnodion o'r elusennau, yr arian a gasglwyd.
- c) Cynorthwyo'r Prif Swyddogion ym mob agwedd o rediad y Chweched Dosbarth a sicrhau fod delwedd bositif gan y Chweched o fewn yr ysgol gan arwain drwy esiempl.

Swydd 3

- a) Cyd arweinydd gyda gweddillol yr Uwch Swyddogion yn gyfrifol am fod yn arweinydd tîm gyda'r **gwasanaethau** yn cydweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Gwasanaeth yn paratoi a chyflwyno gwasanaethau amrywiol i'r ysgol gyfan boed yn wasanaeth llys, y Chweched neu'r ysgol gyfan.
- b) Cynorthwyo ym mhob agwedd o weithgaredd y Chweched gan arwain drwy esiempl.

Swydd 4

- a) Cyd-arweinydd gyda'r Swyddogion i gyd yn gyfrifol am hybu gweithgarwch yn y **llysoedd**, trwy rannu syniadau, sicrhau presenoldeb a gweithgarwch o fewn y llysoedd. Gweithio'n agos gyda'r Penaethiaid Llys yn y Chweched a staff.
- b) Cynorthwyo i sicrhau glendid a thaclusrwydd yn y Lolfa gyda Phwyllgor y Chweched Dosbarth.



PROFIAD GWAITH

Yn ystod tymor yr Haf, trefnir cyfleoedd i fyfyrwyr Blwyddyn 12 i fynychu lleoliadau profiad gwaith. Dylai myfyrwyr wneud eu gorau i drefnu lleoliadau a fydd yn eu cynorthwyo gyda'u dewis o gwrs Addysg Bellach neu yn eu gyrfa yn y dyfodol.

GWERSI ASTUDIO

Pan dderbyniwch eich amserlen, fe welwch fod gennych wersi rhydd. Rhaid defnyddio'r wersi rhydd yma'n gall, dysgu i reoli eich amser rhwng gwaith a gorffwys er mwyn gwneud y defnydd gorau o'ch amser yn y Chweched Dosbarth. Byddwch yn gall, yn aeddfed ac yn ddoeth.

1. Cynlluniwch yr hyn y bwriadwch ei wneud.
2. Ysgrifennwch nodiadau o'r wersi blaenorol
3. Crëwch nodiadau ychwanegol
4. Darllenwch yn ehangach o amgylch eich pwnc trwy ddefnyddio gwers lyfrau neu gyfnodolion pynciol
5. Datblygwch eich dealltwriaeth a'ch gwybodaeth o faterion cyfoes trwy ddarllen papur newydd safonol sydd ar gael yn Llyfrgell yr ysgol

DATBLYGU SGILIAU AC ASTUDIO

Wrth i chi symud i Addysg Uwch, rhaid i chi fabwysiadu arferion dysgu newydd yn wahanol i'r rheini a ddysgoch ar gyfer yr arholiadau T.G.A.U. Fel oedolion ifanc, bydd disgwyl i chi weithio'n fwy annibynnol. Rhaid ceisio meistrolï astudio'n annibynnol. Felly, bydd rhaid i chi chwilio am a dadansoddi ffynonellau gwybodaeth drosoch eich hunan. Efallai na fydd nodiadau'r athrawon yn ddigonol y gyrraedd y safon uchaf. Chwiliwch mewn gwerslyfrau, cylchgronau, y wê, erthyglau papur newydd safonol ac ati. Bydd yn rhaid i chi ddethol yr hyn sy'n berthnasol a defnyddio'r wybodaeth i ddyfnhau eich gwybodaeth. Dyma gyfle i chi ddechrau o'r newydd. Rhaid magu amserlen astudio iach a pheidio gwastraffu gormod o amser yn y Lolfa. Rhaid wrth gof da, ond rhaid ehangu, datblygu a mireinio sgiliau. Ni fydd yn ddigonol i chi fynd o un wers i'r llall heb astudio. Bachwch ar y cyfle i weithio'n annibynnol, mae hon yn sgil hanfodol a fydd angen arnoch yn y dyfodol.



AGWEDD TUAG AT ASTUDIO

Yr hyn fydd yn gosod y sylfeini gorau ar gyfer astudio yw:

- Ymroddiad i'r pwnc
- Deall eich cyfrifoldeb
- Dangos yr awydd am wybodaeth
- Croesawu sylwadau beirniadol ac adeiladol am eich gwaith
- Gweld y cyfan fel cyfle i ddatblygu'n bersonol.



Y LLYFRGELL / Y LOLFA

Y LLYFRGELL

Mae'r Llyfrgell ar gael i chi er mwyn gweithio mewn tawelwch. Yma, ceir y cyfleusterau a gwybodaeth arbenigol ar yrfaoedd ac ar gyfer mynediad i Brifysgolion. Mae'r cyfrifiaduron gerllaw a llyfdd unigol i weithio.



LOLFA'R CHWECHED

Mae gan yr ysgol lolfa ar gyfer ymlacio.

Ni chaniateir i unrhyw fyfyrwr dreulio mwy nag un wers rydd y diwrnod yn y lolfa. Gofynnir i chi osod cyfnodau rhydd/llyfrgell ar eich amserlen a chyflwyno'r manylion i Bennaeth y Chweched Dosbarth.



Dim ond Blwyddyn 12 a 13 sy'n cael defnyddio'r lolfa ac mae ambell wers diwtorial yn cael eu cynnal yno. Mae ynddi nifer o hysbysfyddau lle mae'r Penaethiaid Blwyddyn yn cadw manylion am gyrsiau, cyhoeddiadau perthnasol neu diwrnodau agored. Y Chweched sy'n gyfrifol am daclusrwydd, trefn, glendid a defnydd addas o'r lolfa. Disgwylir i ddefnyddwyr y lolfa ei pharchu ar bob achlysur.

CYFNODAU RHYDD O WERSI YM MLWYDDYN 13

Mae nifer o fyfyrwyr Blwyddyn 13 yn awyddus i weithio yn eu cartrefi yn ystod cyfnodau sy'n rhydd o wersi boed yn sesiwn bore neu brynhawn. Mae'r ysgol yn gofyn am gydweithrediad myfyrwyr yn hyn o beth drwy arwyddo mewn ac allan. Bydd cofnod o gyfnodau rhydd pob myfyrwr yn y Swyddfa ganolog, a byddwn yn cadw llygad barcud ar bresenoldeb, parch at reolau ac agwedd yn gyffredinol os ydych am fanteisio ar y breintiau sylweddol yma.

Os na fydd y myfyrwyr yn dilyn y safonau uchel a osodwyd gan y Chweched Dosbarth, ni fydd hawl derbyn yr holl gyfnodau rhydd o astudio. Mae'n rhaid i bob myfyrwr yn y Chweched Dosbarth gyflawni dyletswydd a chyfrannu'n allgyrsiol yn ystod yr awr ginio, felly bydd angen trefnu'r cyfnodau rhydd yma'n ofalus.



RHAID I CHI GYDYMFFURFIO Â'R RHEOLAU NEU NI FYDD Y SYSTEM YN GWEITHIO!

Ym mis Medi, ym mlwyddyn 13, rhoddir 2 gyfnod rhydd (2 wers) i chi bob pythefnos i astudio yn y cartref. Gellir, yn yr ail dymor, gyda chaniatad Pennaeth y Chweched ymestyn hyn i 4 cyfnod.



IECHYD A DIOGELWCH

Mae'n hanfodol i fyfyrwyr ddilyn rheolau a gofynion cofrestru'r ysgol er mwyn sicrhau diogelwch personol a sefyllfa aelodau eraill o'r ysgol mewn sefyllfa o dân. Os ydych chi'n gadael yr ysgol am unrhyw reswm, (meddygol neu gyfnod rhydd) rhaid cyflwyno llythyr gan riant wedi ei arwyddo gan aelod o'r Tîm Rheoli Uwch, cyn arwyddo allan yn y Swyddfa.



GYRRU CAR

Dylid defnyddio trafnidiaeth y bysiau bob amser, ond weithiau, pan yn hanfodol oherwydd rhesymau personol, neu gyfrifoldeb allgyrsiol, fe ganiateir i chi ddod â char i'r ysgol. Mae'r maes parcio'n fach, felly dylid deall nad oes gennym le i staff, ymwelwyr a holl ddisgyblion yr ysgol yn y maes parcio. Os am gadw'r fraint o yrru car i'r ysgol, rhaid dilyn y cyfarwyddiadau yma:

- Dim ond myfyrwyr Blwyddyn 13 sydd â'r hawl i ddod â car i'r ysgol.
- Llenwi'r ffurflen berthnasol er mwyn derbyn caniatâd y Pennaeth i yrru car ar safle'r ysgol. (Gellir cael y ffurflen, ar gais, o'r swyddfa.)
- Parcio mewn man priodol.
- Gyrru'n synhwyrol yn ôl rheolau deddf gwlad.
- Cofnodi rhif eich car ar y ffurflen yn y swyddfa.
- Nid oes hawl cludo disgyblion eraill oni bai bod rhieni wedi cytuno.
- Nid oes hawl cael eich cludo gan ddisgybl arall oni bai bod rhieni wedi cytuno.
- Nid oes hawl defnyddio'r car yn ystod y diwrnod ysgol ac eithrio teithio i'r ysgol ac adref.



- Dim ond yn ystod gwersi rhydd mae hawl trefnu gwersi gyrru.



ADDYSG GORFFOROL

Enw Cyswilt : Mr John Norgrove

Bwrdd Arholi : **WJEC**
CBAC

Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cyrsiau Uwch Gyfrannol [UG] a Safon Uwch [A] yn seiliedig ar ddatblygu a mireinio gallu corfforol myfyrwyr mewn gwahanol weithgareddau corfforol ac yn rhoi cyfle i fwynhau cwrs cynhwysfawr a hwylus sy'n datblygu gwahanol rolau fel rol perfformiwr, arweinydd a dyfarnwr. Mae'r trawsdoriad o sgiliau a ddatblygir yn addas ar gyfer astudio Addysg Gorfforol neu faes perthynol addysg uwch [Graddau mewn Gwyddor Chwaraeon], cymwysterau galwedigaethol [Datblygu Chwaraeon] neu fynediad uniongyrchol i fyd gwaith. Mae addysg gorfforol yn ymwneud a helpu myfyrwyr i fod yn weithwyr annibynnol ac yn benderfynwyr gwybodus a chraff ac mae'n eu herio i fod yn ymarferwyr myfyriol.



Gofynion mynediad i'r cwrs?

O leiaf Gradd C Addysg Gorfforol TGAU, er mae yn bosib i unigolion priodol ddilyn y cwrs heb fod wedi dilyn cwrs TGAU.

Cynnwys y cwrs?

Caiff myfyrwyr y cyfle i ddatblygu, cymhwyso ac addasu amrywiaeth o sgiliau a thechnegau mewn gwahanol fathau o weithgareddau corfforol. Rhoddir y cyfle i chi gynnal a datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ffactorau sy'n eich galluogi i berfformio'n effeithlon ac i fod yn gorfforol fywiog fel rhan o ddull cytbwys o fyw. Cewch gyfle hefyd i ddatblygu gwybodaeth am y dealltwriaeth a'r gwahanol elfennau corfforol a meddyliol sy'n cyfranu at berfformiad effeithiol a sut mae tueddiadau a datblygiadau cyfredol yn dylanwadu ar berfformiad.

Gweithgareddau Allgyrsiol: Mae'r rhestr o gyfleoedd allgyrsiol yn rhy faeth i restru yma ond meant yn rhan anatod o'r cwrs ac yn rhoi cyfle i berfformio, arwain, hyfforddi a dyfarnu yn ogystal a gosod esiamp l dda o gyrrhaeddiad, ymroddiad a dilynwyr dull cytbwys o fyw i weddill yr ysgol.

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
PE1 50% UG [25%]A	Gwella Perfformiad mewn Addysg Gorfforol	50 Marc	Perfformiad ymarferol [30%] Proffil Perfformiad Personol [10%] Hyfforddi neu Dyfarnu [10%]	Mewnol
PE2 50% UG [25%]A	Dulliau Bywiog o Fyw ac Addysg Gorfforol	50 Marc	Cwestiynau strwythuriedig ynghyd ag un cwestiwn sy'n gofyn am ysgrifennu estyniedig.	Allanol

Blwyddyn 13 – U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
PE3 25%	Mireinio Perfformiad mewn Addysg Gorfforol	50 Marc	Perfformiad Ymarferol [17.5%] Ymchwil Ymchwiliol [7.5%]	Mewnol
PE4 25%	Perfformiad, Darpariaeth a Chyfranogiad mewn Addysg Gorfforol	50 Marc	Adran A – Cwestiynau strwythuriedig [15%] Adran B – Un cwestiwn sydd yn gofyn am ysgrifennu estyniedig o ddewis o ddau [10%].	Allanol





Pam astudio'r pwnc?

Mae Astudiaethau Crefyddol yn cynnig y cyfle heriol i astudio credoau, profiadau dynol a digwyddiadau crefyddol. Mae'n annog myfyrwyr i ddatblygu sgiliau rhesymu, archwilio a dadansoddi. Mae'n gwrs cyffrous ac yn galluogi myfyrwyr i feddwl yn fwy dwys am y byd y maent yn byw ynddo. Mae'r cwrs yn gofyn i chi ddatblygu sgiliau ysgrifennu traethodau, cymryd nodiadau, dysgu technegau ymchwil a darllen yn eang.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Byddwch wedi ennill gradd mewn Cwrs Byr Addysg Grefyddol TGAU ac fe fydd hyn yn ddigonol ar gyfer y cwrs hwn.

Cynnwys y cwrs?

Astudir dwy uned yn y flwyddyn gyntaf sef: Cyflwyniad i'r Astudiaeth o un grefydd gyda'r dewis o chwech: Cristnogaeth, Islam, Iddewiaeth, Bwdhaeth, Hindŵaeth neu Sikhiaeth. Ail uned sef Athroniaeth Crefydd/Crefydd a Moeseg. Mynychir cwrs diwrnod o adolygu yng Ngholeg y Drindod yn ystod y flwyddyn dan arweiniad y prif arholwyr. Astudir unedau pellach yn yr ail flwyddyn. Nid oes gwaith cwrs. Aseir trwy arholiad yn unig.

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Cyflwyniad i'r Astudiaeth o Grefydd	15%	Mae dewis i astudio un grefydd o chwech: Cristnogaeth, Islam, Iddewiaeth, Bwdhaeth, Hindŵaeth neu Sikhiaeth.	Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud
Uned 2	Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg	25%	Adran A: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd Adran B: Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg	Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 3:	Astudiaeth o Grefydd	20%	Themâu: Unigolion crefyddol a thestunau sanctaidd; Datblygiad hanesyddol crefyddol; Datblygiad cymdeithasol arwyddocaol crefyddol; Arferion crefyddol sy'n llunio hunaniaeth grefyddol.	Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
Uned 4:	Crefydd a Moeseg	20%	Themâu: Iaith a syniadau moesegol; Damcaniaeth Foesol Kant; Datblygiadau cyfoes ym maes damcaniaeth foesegol; Ewyllys rhydd a phenderfyniaeth.	Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
Uned 5:	Athroniaeth Crefydd	20%	Themâu: Dadleuon ontolegol dros fodolaeth Duw; Sialensiau i gred grefyddol; Profiad crefyddol ac iaith grefyddol.	Arholiad ysgrifenedig: 1awr 30 munud



BAGLORIAETH CYMRU

Enw Cyswilt : Mr Eurnyn Madoc-Jones

Bwrdd Arholi : 

Pam astudio'r pwnc?

O Fedi 2015 mae **Bagloriaeth Cymru** yn bwnc gorfodol i bob myfyriwr yn y Chweched Dosbarth. Bydd yn rhaid i bob disgybl gyflawni 4 her dros gyfnod astudio o ddwy flynedd:

- **Her Menter a Chyflogadwyaeth**
- **Her Dinasyddiaeth fyd-eang**
- **Her Gymunedol**
- **Ysgrifennu Prosiect Unigol**



Mae'r meysydd astudio hyn yn deillio o'r profiadau y mae'r myfyrwyr eisoes yn eu cael ym Mlynnyddoedd 12 a 13. Felly mae'r Bagloriaeth yn gyfle i droi'r profiadau hynny i mewn i gymhwyster cydnabyddedig sydd cyfwerth ag un gradd Lefel A.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae'r Bagloriaeth Uwchradd ar gael i'r myfyrwyr hynny sydd wedi llwyddo i ennill graddau A* i C mewn Cymraeg Iaith / Saesneg Iaith a Mathemateg TGAU. Mae opsiwn i ddilyn cwrs Bagloriaeth Sylfaenol yn bosib i unigolion mewn amgylchiadau arbennig, sef y disgyblion hynny sydd wedi cyflwyno cais at Bennaeth yr ysgol yn gofyn am ganiatâd i ddychwelyd i'r Chweched Dosbarth,

Cynnwys y cwrs?

Her Menter a Chyflogadwyaeth: Angen cwblhau 120 awr o waith menter a chyflogadwyaeth. Byddwch yn dysgu am yr hyn sydd ei angen er mwyn gwneud busnes/menter llwyddianus yn yr ystafell ddosbarth. Yn dilyn hynny byddwch yn treuio 50 awr yn creu busnes / menter eich hunain mewn grwpiau o 4-5.

Her Dinasyddiaeth fyd eang: Modiwl 70 awr sy'n golygu y byddwch y dysgu am faterion cyfoes o bwys mewn sefyllfa ystafell ddosbarth. Cewch eich dysgu am faterion gwleidyddol, economaidd, technoeol, amgylcheddol a chymdeithasol. Caiff hyn ei ddysgu trwy weithgareddau megis cyflwyniadau a gwaith ymchwil unigol.

Her Cymunedol : Modiwl 50 awr. Cewch eich dysgu am fudd gwaith cymunedol a gwirfoddol a sut mae mynd ati i drefnu gweithgarwch o'r fath. Yn ystod yr ail ran byddwch yn mynd ati i drefnu gweithgaredd cymunedol / gwirfoddol eich hunain.

Prosiect Unigol: Modiwl 120 awr. Byddwn yn dysgu sgiliau angenrheidiol i chi yn ymwneud â gwaith ymchwil a gwerthuso ffynonellau ynghyd â sut mae strwythuro ateb yn gelfydd. Byddwch yn ysgrifennu gwaith ymchwil 3,000 o eiriau yn dilyn hynny.

- Rhaid ennill graddau A*-E mewn dau bwnc Lefel Uwch (neu gwrs Lefel 3 cyfatebol) cyn y gellir llwyddo yn y cymhwyster Bagloriaeth Cymru.
- Cewch eich dysgu gan dîm o athrawon ym Mlynnyddoedd 12 a 13, yn ogystal trefnir siaradwyr gwadd ac ambell daith.

DOES DIM ARHOLIAD AR DDIWEDD Y CWRS



Enw Cyswilt : Mr Tim Hayes

Bwrdd Arholi : 

Pam astudio'r pwnc?

Y bwriad yw y bydd defnyddio amrywiaeth o ymagweddau yn symbylu diddordeb, hyrwyddo dealltwriaeth ac ennyn gwerthfawrogiad cyffredinol ac ymdeimlad o ryfeddod ar y byd byw.

Y nodau bras felly yw:



- darparu sylfaen ffeithiol eang a sgiliau
- symbylu diddordeb yn y pwnc
- hwyluso gwerthfawrogiad beirniadol o faterion sy'n codi o'r pwnc.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn astudio'r cwrs rhaid eich bod wedi ennill o leiaf gradd B naill ai mewn TGAU Bioleg neu mewn TGAU Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol. Mae hefyd o gymorth i astudio Cemeg i o leiaf lefel Uwch Gyfrannol.

Cynnwys y cwrs?

Mae Bioleg yn darparu toreth eang o wybodaeth sy'n cyffwrdd â llawer o wahanol agweddau ar amrywiaeth o destunau.

Mae'r rhain yn amrywio o adeiledd mewnol organebau mewn

ffisioleg a rhyngddibyniaeth pethau byw mewn ecoleg, i faterion cymdeithasol gan gynnwys dylanwad dyn ar yr amgylchedd ac ystyriaethau moesegol geneteg.

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 – UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Biocemeg sylfaenol a threfniadaeth celloedd	20% o'r cymhwyster	Adeiledd a swyddogaeth cyfansoddion ac ensymau biolegol; adeiledd sylfaenol celloedd a threfniadaeth; cellraniad; cellbilenni; cludiant pilenni.	Arholiad allanol
Uned 2	Bioamrywiaeth, ffisioleg a systemau'r corff	20% o'r cymhwyster	Addasiadau ar gyfer cyfnewid nwyon, cludiant a maeth.	Arholiad allanol

Blwyddyn 13 – A2

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 3	Metabolaeth, Microbioleg a Homeostasis	25% o'r cymhwyster	Cyflenwadau egni mewn organebau byw, microbioleg a phoblogaethau; homeostasis a'r system nerfol; effaith dyn ar yr amgylchedd.	Arholiad allanol Haf
Uned 4	Yr Amgylchedd, Geneteg ac Esblygiad	25% o'r cymhwyster	Amrywiad ac esblygiad, geneteg a chymwysadau. Unedau opsiwn yn ogystal .	Arholiad allanol
Uned 5	Arholiad Ymarferol	10% o'r cymhwyster	Arholiad sy'n gofyn i ymgeiswyr defnyddio dulliau rhagdybio, cynllunio, dadansoddi a gwerthuso a ddatblygir yn ystod y cwrs.	Arholiad wedi ei farcio'n allanol



BUSNES – BTEC TYSTYSGRIF LEFEL 3

Enw Cyswllt : Mrs Sian Taylor

Bwrdd Arholi : Pearson Excel

Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cwrs yma wedi ei ddylunio i roi sail addas ar gyfer astudio Busnes, neu faes astudio cysylltiedig mewn addysg bellach neu uwch a /neu baratoad ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Mae'r cwrs yn rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn cyd-destunau busnes realistig. Wrth astudio gallwch feithrin sgiliau sydd eu hangen i lwyddo fel mentwr, rheolwr neu gyflogai megis – ymchwilio, cyfathrebu, cydweithio, datrys problemau, dadansoddi a gwerthuso, cyflwyno gwybodaeth.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Nid oes gofyniad penodol am ddysgu blaenorol: er y bydd rhai dysgwyr eisoes wedi astudio Astudiaethau Busnes ar gyfer TGAU. Disgwylir y bydd hwn yn faes pwnc newydd i lawer. Mae'n ddymunol eich bod wedi ennill graddau A-C TGAU mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg.

Cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn cynnwys 4 Uned gorfodol a 2 Uned ddewisol. Disgwylir i chi, dan gyfarwyddyd athrawon, i wneud cysylltiadau a busnesau er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer gwaith cwrs. Trefnir ymweliadau â busnesau a derbynnir ymweliadau oddi wrth siaradwyr gwadd.



Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Yr Amgylchedd Busnes	10 credyd (gorfodol)	Gwybodaeth sylfaenol am ystod o sefydliadau busnes, a'r ffactorau sy'n siapia natur sefydliadau	Asesiad mewnl
Uned 2	Adnoddau Busnes	10 credyd (gorfodol)	Datblygu gwybodaeth am adnoddau dynol, ffisegol, technolegol a chyllidol sydd yn effeithio ar berfformiad busnes.	Asesiad mewnl
Uned 3	Cyflwyniad i Farchnata	10 credyd (gorfodol)	Datblygu dealltwriaeth o sut mae marchnata, ymchwil a chynllunio yn cael eu defnyddio gan sefydliadau.	Asesiad mewnl

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 4	Cyfathrebu Busnes	10 credyd (gorfodol)	Casglu, rheoli a chyfathrebu gwybodaeth busnes	Asesiad mewnl
2 Uned ddewisol		10 credyd yr un	Amrywiaeth o unedau a phenderfynir ar y dewis yn ystod y cwrs.	Asesiad mewnl



Enw Cyswilt : Mrs Kathryn Richards

Bwrdd Arholi : WJEC CBAC

Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cwrs Celf a Dylunio Cyffredinol yn eich galluogi i fynegi eich syniadau a theimladau i wahanol fathau o elfennau gweledol. Nid yn unig mae disgwyl i fyfyrwr ymateb a sylwi ar y byd o'u cwrpas drwy fraslunio a chofnodi ymatebion, ond hefyd drwy wneud sylwadau ysgrifenedig arno hefyd. Mae'r gwersi wedi ei strwythuro yn fanwl ar y dechrau er mwyn datblygu sgiliau braslunio, argraffu a pheintio, yn ogystal ag annog yr unigolyn i weithio gyda'i gryfderau er mwyn trosglwyddo'r rhain mewn dull creadigol yn ei maes arbenigol boed yn animeiddio, tecstilau, serameg neu waith 4D.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn cael mynediad i'r cwrs disgwylir i fyfyrwr:

- Naill ai fod wedi dilyn cwrs TGAU Celf a Dylunio gofynnwn am o leiaf Gradd C
- Neu fod wedi creu portfolio o waith enghreifftiol.

Cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn seiliedig ar themâu amrywiol a ddefnyddir fel sail at ddatblygu amrywiaeth o waith arbrol a thraddodiadol i ymestyn sgiliau a thechnegau gydag amrywiaeth o ddeunyddiau. Astudir gwaith arlunydd, cynllunwyr a chrefft bobl er mwyn archwilio ac ymchwilio i wahanol dechnegau. Bydd pob disgybl yn arddangos eu gwaith terfynol mewn arddangosfa breifat allanol.



Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - U2

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1 Gwaith Cwrs	Ymholiad Creadigol Personol	40% 160 marc	Prosiect/Portffolio gyda darn neu ddarnau terfynol ar thema bersonol, fydd yn integreiddio theori gyda gwaith ymarferol.	Asesiad mewnol a safoni allanol.

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 2 Gwaith Cwrs	Ymchwiliad Personol	36% 160 marc	Rhan 1: Ymchwiliad ymarferol yn seiliedig ar themâu personol. Rhan 2: Ysgrifennu estynedig sy'n cyfuno delweddau a thestun sy'n berthnasol i'r rhan gyntaf.	Asesiad mewnol a safoni allanol.
Uned 3	Arholiad	24% 100 marc	Gwaith Paratoi: Llyfrau braslunio neu/a phortffolio o waith. Darn Terfynol: O dan amodau arholiad yn yr adran gelf	Asesiad mewnol a safoni allanol



Pam astudio'r pwnc?

Mae astudio Cemeg ar gyfer safon uwch yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Cemeg neu faes perthnasol, e.e Meddygaeth, Biocemeg, Milfeddyg, Fferylliaeth, Peirianeg Gemegol ac yn y blaen neu fynediad uniongyrchol i fyd gwaith. Mae'r cwrs yn un gwerthfawr hefyd ar gyfer ymgeiswyr na fyddant yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc ymhellach. Ceir y cyfle i ddatblygu sgiliau ymarferol ac i ddysgu am sut mae Cemeg yn chwarae rôl hanfodol wrth wella ansawdd bywyd.



Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn astudio'r cwrs rhaid eich bod wedi ennill o leiaf gradd B naill ai mewn TGAU Cemeg neu mewn TGAU Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol. Mae hefyd o gymorth i astudio Bioleg i o leiaf lefel Uwch Gyfrannol.

Cynnwys y cwrs?

Ym mlwyddyn 12 trafodir rhai syniadau sylfaenol pwysig ynghylch atomau a sut y defnyddir y cysyniad o folau mewn cyfrifon. Astudir ffactorau sy'n rheoli newidiadau cemegol a cheir cyflwyniad i Gemeg Organig. Ym mlwyddyn 13 ceir un uned Cemeg Organig ac un uned Cemeg Anorganig a Chemeg Ffisegol.

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Adeiledd Mater ac adweithiau syml	20%	Yr Atom, Cyfrifon y môl, Bondio, Adeiledd solidau, Ecwilibria ac y Tabl Cyfnodol.	Arholiad allanol
Uned 2	Egni, Cyfradd a Chemeg cyfansoddion Carbon	20%	Cemeg Organig gan gynnwys hydrocarbonau, halogenoalcenau, alcoholau, Thermocemeg a Cyfraddau adweithio.	Arholiad allanol

Blwyddyn 13 – A2

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 3	Cemeg Ffisegol ac Anorganig	25%	Datblygu syniadau Rhydods, Cineteg cemegol, newidiadau Egni, Entropi ac Ecwilibria . Astudio adrannau y Tabl Cyfnodol.	Arholiad allanol
Uned 4	Cemeg Organig a dadansoddi	25%	Diddwytho adeiledd, synthesis cyfansoddion organig a'r defnydd ohonynt.	Arholiad allanol
Uned 5	Cemeg Ymarferol	10%	Gwaith ymarferol yn seiliedig ar wybodaeth y cwrs llawn Lefel A Cemeg.	Arholiad ymarferol

Enw Cyswllt : Mrs Meinir Richards

Bwrdd Arholi : 

Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cyrsiau Uwch Gyfrannol (UG) a Safon Uwch (A2) yn seiliedig ar waith perfformio, cyfansoddi a gwerthuso. Dyma gyfle i fwynhau cwrs cynhwysfawr a difyr sy'n datblygu eich sgiliau ymarferol ynghyd â'ch sgiliau gwerthuso a dadansoddi. Nid yn unig mae'r trawsdoriad o sgiliau a'r ddisgyblaeth a ddatblygir yn werthfawr ar gyfer swyddi yn ymwneud â maes Cerddoriaeth, ond hefyd ar gyfer pob math o swyddi eraill.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Naill ai gradd C yng Ngherddoriaeth TGAU neu gradd 5 theori Cerdd.

Cynnwys y cwrs?

Astudir amrywiaeth o weithau gosod ym M1 12 ac ym M1 13. Cewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau cyfansoddi ar gyfer paratoi ffolio, yn ogystal â'ch sgiliau perfformio ar gyfer paratoi rhaglen ymarferol.

Gweithgareddau allgyrsiol:

Rhoddir nifer o brofiadau i chi gan gynnwys cyfleoedd i berfformio mewn cyngherddau, nosweithiau adloniannol, sioeau cerdd a chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Trefnir taith i Lundain yn flynyddol i weld sioe gerdd, ac fe fydd cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy cyfansoddi gyda chyfansoddwr preswyl.



Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Perfformio	12%	Perfformiad unigol a/ neu grŵp o ddau ddarn (6 - 8 munud)	Arholwr Allanol
Uned 2	Cyfansoddi	12%	Dylid cyflwyno ffolio o 2 gyfansoddiad Y ffolio cyfan i bara rhwng 3 - 6 munud 1 cyfansoddiad yn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC gan ddefnyddio technegau a chonfensiynau Traddodiad Clasurol y Gorllewin sy'n para o leiaf 1 munud 1 cyfansoddiad rhydd y mae'r dysgwyr yn gosod ei briff ei hunan ar ei gyfer ac sy'n para o leiaf 2 funud	Asesiad allanol
Uned 3	Gwerthuso	16%	Arholiad yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth (gweithiau gosod) a gymerwyd o ddau faes astudio.	Papur Arholiad 1½ awr

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 4	Perfformio	A = 22% B = 14%	Naill ai A: Perfformiad o 10 – 12 munud; 2 ddarn neu B: Rhaglen o 6 – 8 munud; 2 ddarn	Arholwr Allanol
Uned 5	Cyfansoddi	A = 22% B = 14%	Naill ai A: Ffolio o 2 gyfansoddiad i bara rhwng 3 – 6 munud neu B: Ffolio o 3 cyfansoddiad i bara 5 - 9 munud	Asesiad Allanol
Uned 6	Gwerthuso	24%	Arholiad yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth (gweithiau gosod) a gymerwyd o'r ddau faes astudio a ddewiswyd. O Faes Astudiaeth DD – Cerddoriaeth yr 20fed ganrif/21ain ganrif.	Papur Arholiad 2¼ awr



Pam astudio'r pwnc?

Mae astudio Cymdeithaseg yn hybu datblygiad meddwl beirniadol ac ystyriol mewn perthynas ag amrywiaeth cymdeithasol. Bydd y cwrs yn creu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd strwythur cymdeithasol a gweithredu cymdeithasol wrth egluro materion cymdeithasol. Bydd y myfyrwyr yn cael eu hannog i feithrin eu hymwybyddiaeth gymdeithasegol eu hunain trwy gymryd rhan weithredol ym materion y byd cymdeithasol cyfoes.

Bwriad y cwrs yw annog myfyrwyr i:

- Datblygu sgiliau sy'n galluogi nhw i ganolbwyntio ar eu hunaniaeth, eu rolau a'u cyfrifoldebau personol yn y gymdeithas.
- Datblygu dealltwriaeth feirniadol o newidiadau cymdeithasol cyfoes yn y wasg a'r cyfryngau, pobl ifanc, iechyd a chymdeithaseg byd eang.

Ac yn y pen draw datblygu diddordeb gydol oes mewn materion cymdeithasol.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn astudio Cymdeithaseg nid oes angen profiad blaenorol yn y maes. Serch hynny byddai ennill graddau C neu uwch yn TGAU Cymraeg/Saesneg a phedwar pwnc arall yn ddefnyddiol.

Cynnwys y cwrs?

Ceir pedwar maes llafur eu hastudio:

- Diwylliant Ieuencid
- Y Cyfryngau Torfol
- Iechyd ac Anabledd
- Cymdeithaseg Fyd-Eang



Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
SY1	Caffael Diwylliant	20%	Diwylliant Ieuencid	Papur arholiad 1 awr
SY2	Deall Diwylliant	30%	Y Cyfryngau Torfol	Papur arholiad 1 awr 30 munud

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
SY3	Deall Grym a Rheolaeth	20%	Deall Iechyd ac Anabledd	Papur arholiad 1 awr 30 munud
Gp4a	Deall Rhaniadau Cymdeithasol	30%	Cymdeithaseg Fyd-Eang	Papur arholiad 2 awr



Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cyrsiau Uwch Gyfrannol(AS) a Safon Uwch (A2) yn seiliedig ar astudiaeth o iaith, llenyddiaeth a llunyddiaeth. Dyma gyfle i fwynhau cwrs cynhwysfawr a hwylus sy'n datblygu eich sgiliau llafar ac ysgrifenedig a'ch hybu i ddadansoddi a chyfathrebu. Mae'r trawsdoriad o sgiliau a datblygir yn werthfawr ar gyfer pob math o swydd.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

O leiaf dwy radd C Cymraeg iaith a Llenyddiaeth Gymraeg Haen Uwch.

Cynnwys y cwrs?

Astudir y ffilm "Hedd Wyn" gan Alan Llwyd, y ddrama "Siwan" gan Saunders Lewis a'r nofel "Dan gadarn Goncrit" gan Mihangel Morgan ar gyfer trafodaeth lafar. Rhoddir y cyfle i chi ysgrifennu'n greadigol a ffeithiol ac i fynegi barn ar bynciau llosg amrywiol. Disgwylir i chi astudio'r chwedlau cynnar, hanes a barddoniaeth Cymru'r 6ed Ganrif yn ogystal â barddoniaeth yr 20fed a'r 21ain Ganrif. Cewch gyfle hefyd i feithrin a datblygu sgiliau gwerthfawrogi a chodi safon eich cywirdeb ieithyddol.



Gweithgareddau allgyrsiol:

Trefnir taith lenyddol i'r De a'r Gogledd, gweithdai ysgrifennu creadigol a newyddiaduraeth. Ymwelir â phrifysgolion i wrando ar ddarlithoedd. Mae'r adran hefyd yn cystadlu'n frwd yng nghystadlaethau'r Urdd, Siarad Cyhoeddus a Thalwrn y Beirdd.

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
CY1	Y Ffilm a'r Ddrama a Llafaredd	15%	Trafod dau destun, un ffilm ac un ddrama.	Arholiad Llafar Allanol
CY2	Ffolio o waith cwrs ysgrifenedig	10%	Cwblhau dwy dasg: ysgrifennu creadigol a mynegi barn.	Asesiad Mewnol
CY3	Defnyddio iaith a Barddoniaeth	15%	Ymarferion iaith a thraethawd ar y cerddi gosod.	Arholiad Ysgrifenedig

Blwyddyn 13 – A2

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
CY4	Y Nofel a Llafaredd	20%	Trafod nofel	Arholiad Llafar Allanol – tua ¾ awr
CY5	Y Chwedlau, Yr Hengerdd a'r Cywyddau	20%	Astudio Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, Yr Hengerdd a'r Cywyddau.	Arholiad Ysgrifenedig 2 awr
CY6	Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn Cyd-destun	20%	Gwerthfawrogi rhyddiaith neu farddoniaeth, ysgrifennu darn ar ffurf benodol.	Arholiad Ysgrifenedig 2 awr



DAEARYDDIAETH

Enw Cyswilt : Mr Alun Thomas

Bwrdd Arholi : 

Pam astudio'r pwnc?

"Daearyddiaeth yw'r pwnc sy'n dal allwedd ein dyfodol." Michael Palin

Mae Daearyddiaeth yn bwnc sy'n eich galluogi i:

- ddeall yr amgylchedd ar raddfa leol a bydol
- adnabod eich byd trwy waith maes
- gwneud penderfyniadau doeth sy'n cydbwysu pryderon amgylchedd a datblygiadol
- datblygu amrediad eang o sgiliau sy'n cyflwyno dadleuon neu ysgrifennu adroddiadau yn seiliedig ar waith ymchwil
- deall diwylliannau eraill yng Nghymru, Ewrop ac ar draws y byd.



Gofynion mynediad i'r cwrs?

Alla i ddilyn y cwrs Daearyddiaeth?

Pam lai? Os ydych chi wedi dilyn y cwrs TGAU Daearyddiaeth yna rydych yn ymgeisydd amlwg i fod yn ystyried astudio Daearyddiaeth Safon Uwch.

Beth os nad ydych wedi dilyn y cwrs Daearyddiaeth TGAU?

Os oes diddordeb gennych mewn themâu daearyddol a materion cyfoes, yna mae'r potensial gennych i astudio'r pwnc. Trafodwch eich diddordeb gydag athrawes Ddaearyddiaeth fydd yn eich cyngori ar ba mor ddoeth ydy hi i chi ddilyn y cwrs Safon Uwch. Mae Daearyddiaeth Safon Uwch yn gymhwyster sydd wedi profi i fod yn hynod ddefnyddiol i ddisgyblion sydd wedi symud ymlaen i amrywiaeth o lwybrau gyrfa.

Cynnwys y cwrs?

Dros gyfnod o ddwy flynedd byddwch yn cael y cyfle i astudio amrywiaeth eang o themâu megis Tirweddau sy'n Newid, Peryglon Tectonig, Cylchredau Dwr a Charbon, Newid a Heriau'r 21^{ain} Ganrif ac ati. Mae astudio'r themâu hyn yn allweddol i'n dealltwriaeth o'n gorffennol, presennol a'n dyfodol. Yn ystod y cwrs cewch gyfle hefyd i adael yr ystafell ddosbarth i gwblhau ymchwiliad gwaith maes a chymryd cyfrifoldeb am eich dysgu eich hun trwy ymgymryd ag ymchwiliad annibynnol.

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Tirweddau sy'n Newid	24%	Adran A: Tirweddau sy'n Newid (Tirweddau Ardordirol neu Rewlifedig) Adran B: Peryglon Tectonig	Arholiad ysgrifenedig 2 awr.
Uned 2	Lleoedd sy'n newid	16%	Adran A: Lleoedd sy'n Newid Adran B: Ymchwiliad Gwaith Maes mewn Daearyddiaeth Ffisegol a Dynol	Arholiad ysgrifenedig 1½ awr.

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 3	Systemau Byd-eang a Rheolaeth Fyd Eang	24%	Adran A: Systemau Byd-eang Adran B: Rheolaeth Fyd-eang: Newid a Heriau Adran C: Heriau'r 21ain Ganrif	Arholiad ysgrifenedig 2 awr.
Uned 4	Themau Cyfoes mewn Daearyddiaeth	16%	Adran A: Peryglon Tectonig Adran B: Themau Cyfoes mewn Daearyddiaeth	Arholiad ysgrifenedig 2 awr.
Uned 5	Ymchwiliad annibynnol	20%	Un ymchwiliad annibynnol ysgrifenedig, wedi'i seilio ar gasglu data cynradd a gwybodaeth eilaidd.	Asesiad heb arholiad: 3000-4000 gair



Enw Cyswllt : Mrs Lowri Davies

Bwrdd Arholi : WJEC CBAC

Pam astudio'r pwnc?

- Mae'r cwrs yn eich galluogi i fynegi hunaniaeth bersonol a diwylliannol, i ddatblygu sgiliau dramatig wrth greu, perfformio a gwerthuso. Mae'n ffordd werthfawr i ddatblygu hyder a sgiliau ieithyddol.
- Mae'r cwrs yn sylfaen gadarn ar gyfer dilyn gyrfa yn y maes celfyddydol a thu hwnt. Wrth astudio, gallwch feithrin sgiliau perfformio, cyfathrebu, cydweithio, arwain, datrys problemau, dadansoddi, cyflwyno gwybodaeth, ysgrifennu a hunanwerthuso.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn cael mynediad i'r cwrs disgwylir i fyfyrwyr:

- Naill ai fod wedi dilyn cwrs TGAU Drama;
- Neu fod wedi cael profiad perfformio ac wedi ennill gradd C yn y cwrs TGAU Cymraeg.

Cynnwys y cwrs?

Rhoddir nifer o brofiadau i chi gan gynnwys cyflawni gwaith ymarferol yn seiliedig ar ddramau gosod a gwaith dyfeisiedig eich hunain. Disgwylir i chi ymchwilio drwy ddarllen amrywiaeth eang o ddramâu ac anogir chi i arbrofi wrth lwyfannu perfformiadau. Cewch gyfle i berfformio mewn nosweithiau adloniannol, sioeau cerdd a chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Trefnir ymweliadau â'r theatr a derbynnir ymweliadau oddi wrth gwmnïau teithiol, actorion ac arbenigwyr eraill yn y maes.



Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
DA1	Gweithdy Perfformio	20%	Actio mewn arddull dau Ymarferwr Theatr mewn grŵp, un sgript o ddrama osod a gwaith dyfeisiedig	Marcio mewnol a safoni allanol.
DA2	Testun Mewn Perfformiad	30%	Papur arholiad. Bydd ymgeiswyr yn ateb tri chwestiwn, drama cyn ac ar ôl 1900 ac adolygiad theatr fyw.	Asesiad Allanol

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
DA3	Perfformiad Ymarferol	30%	Disgwylir i chi baratoi dau berfformiad, un ar ddrama gyhoeddus a'r llall yn waith gwreiddiol ar destun gosod.	Asesiad Allanol
DA4	Testun Mewn Cyd-destun	20%	Papur arholiad yn seiliedig ar ddwy ddrama osod, un cyn ac ar ôl 1900.	Asesiad Allanol



DYLUNIO A THECHNOLEG: DYLUNIO CYNNYRCH

Enw Cyswilt : Mr Robyn Davies

Bwrdd Arholi : **WJEC**
CBAC

Pam astudio'r pwnc?

Mae pob cynnyrch rydym wedi ei brynu, o chwaraewyr MP3 i'r cadeiriau rydym yn eistedd arnynt, wedi ei gynllio i edrych a gweithio mewn ffordd arbennig. Ar y cwrs yma byddwch yn dysgu sut i ddylunio a datblygu cynhyrchion deniadol a defnyddiol. Byddwch yn datblygu sgiliau gweledol, cynhyrchu prototeip, a dylunio trwy gymorth cyfrifiadur. Byddwch yn dysgu am ddefnyddiau a dulliau chynhyrchu trwy gwblhau tasgau ymarferol dylunio a gwneud. Gallai'r cwrs eich arwain i amrediad eang o yrfaedd cyffrous.



Gallech ddatblygu gyrfau mewn dylunio cynhyrchion electroneg, neu fecanyddol. Beth am raffigwaith cyfrifiadurol? Efallai byddai dylunio trwy gymorth cyfrifiadur ar gyfer diwydiant yn apelio. Gallai'r cwrs yma arwain i yrfaedd tebyg i waith pensaer, dysgu, gwaith diwydiannol, marchnata neu beirianeg.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Nid oes unrhyw ofynion penodol ar gyfer dysgu blaenorol, er y bydd llawer o ymgeiswyr eisoes wedi meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o Ddylunio a Thechnoleg trwy ddilyn manyleb TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg. Bydd disgwyl i ddisgyblion fod wedi ennill gradd C yn y cwrs TGAU Cymraeg.

Cynnwys y cwrs?

Mae cwrs mewn Dylunio a Thechnoleg yn cynnig cyfle unigryw yn y cwricwlwm i ymgeiswyr ddarganfod a datrys problemau go iawn trwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau yn ymwneud â'u diddordebau personol. Cwrs ymarferol yw Dylunio a Thechnoleg. Trwy gwblhau prosiectau dylunio a gwneud byddwch yn dysgu am dechnegau dylunio, ffurf a swyddogaeth, defnyddiau a phrosesau cynhyrchu. Byddwch yn ymarfer technegau dylunio 2D, 3D a chyfrifiadurol. Byddwch yn defnyddio offer a pheiriannau i gynhyrchu'r syniad terfynol. Byddwch yn cael cyfle i ymweld ag arddangosfeydd o waith dylunwyr arloesol

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1 UG	Papur Arholiad Dylunio Cynnyrch	20% 2 awr	- Dylunio ac arloesi - Dadansoddi cynnyrch - Defnyddiau a chydannau - Arfer diwydiannol a masnachol	Asesir y gydran hon yn allanol gan CBAC.
Uned 2 UG	Tasg Dylunio a Gwneud	20% (tua 40 awr)	Bydd yr ymgeiswyr yn cyflwyno un dasg dylunio a gwneud	Caiff y gydran hon ei marcio gan y ganolfan a'i safoni gan CBAC.

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1 Uwch	Papur Arholiad Dylunio Cynnyrch	30% 2½ awr	- Cyfrifoldeb dynol - Rhyngweithiad cyhoeddus - Prosesau - Systemau cynhyrchu a rheolaeth	Asesir y gydran hon yn allanol gan CBAC.
Uned 2 Uwch	Prif Broiect Dylunio a Gwneud	30% (tua 60 awr)	Bydd yr ymgeiswyr yn ymgymryd ag un project sylweddol. Bob blwyddyn bydd CBAC yn gosod wyth thema ar gyfer y project, er y gall yr ymgeiswyr hefyd gyflwyno eu cynigion eu hunain i'w cymeradwyo.	Caiff y gydran hon ei marcio gan y ganolfan a'i safoni gan CBAC



Pam astudio'r pwnc?

Dyma gwrs newydd sy'n galluogi i chi ddatblygu gwybodaeth helaeth am bwnc Gwyddor Bwyd a Maeth. Mae'r cwrs yn cynnig y cyfle i ddysgu am y berthynas rhwng y corff dynol a bwyd, yn ogystal â datblygu sgiliau ymarferol sy'n gysylltiedig â gwaith arbrofol a'r broses o goginio a pharatoi bwyd. Mae pwyslais cryf ar waith ymarferol yn y cwrs hwn, sy'n golygu ei fod felly'n ddelfrydol ar gyfer chi os oes gwell gyda chi i ddysgu drwy wneud. Gall y cwrs yma arwain at yrfa yn sectorau bwyd a diod y diwydiannau lletygarwch ac arlwy, cynhyrchu bwyd neu adwerthu bwyd; neu gyrsiau coleg tebyg i BSc Bwyd a Maeth, BSc Maeth Dynol, BSc (Anrh.) Maeth Iechyd Cyhoeddus, BSc (Anrh.) Gwyddor Bwyd a Thechnoleg.



Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae'r cwrs yn cynnig dilyniant o'r cwrs TGAU Bwyd a Maeth ond mae yn bosib dechrau ar y cwrs o'r newydd.

Cynnwys y cwrs?

Bydd rhaid cwblhau tair uned (dwu uned orfodol ac un opsiynol) dros ddwy flynedd i fod yn llwyddiannus. Mae'r ddwy uned orfodol yn galluogi chi i ddatblygu ac arddangos eu dealltwriaeth o wyddor diogelwch bwyd a hyllendid, maeth ac anghenion maethol unigolion mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Mae'r sesiynau ymarferol o fewn y ddwy uned yma yn helpu i feithrin sgiliau ymarferol ac i roi mewn i ymarfer gwybodaeth am ddiogelwch a hyllendid bwyd. Bydd astudio un o'r ddwy uned ddewisol yn rhoi cyfle i chi astudio pynciau sydd o ddiddordeb neu yn berthnasol i'r llwybr gyrfa o'ch dewis.

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12

UNEDAU	TEITL	STRWYTHUR	ASESU
Uned 1	Bodloni Anghenion Maethol Grwpiau Penodol	Gorfodol	Mewnol ac Allanol

Blwyddyn 13

UNEDAU	TEITL	CYNNWYS	ASESU
Uned 2	Sicrhau bod Bwyd yn Ddiogel i'w Fwyta	Gorfodol	Allanol
Uned 3	Arbrofi i Ddatrys Problemau Cynhyrchu Bwyd	Opsiynol	Mewnol
Uned 4	Materion Cyfoes mewn Gwyddor Bwyd a Maeth	Opsiynol	Mewnol

Pam astudio'r pwnc?

Addas at ddilyn gyrfa mewn nifer fawr o feysydd gwahanol:

- peirianneg trydanol,
- swyddi trydanwyr,
- cyfrifiaduron,
- diwydiant electroneg.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Byddai angen gradd B TGAU o leiaf mewn gwyddoniaeth trifflyg neu ddwbl a B mewn TGAU mathemateg.

Cynnwys y cwrs?

Amrywiaeth o dasgau a sgiliau yn cael eu defnyddio:

- gwaith ymarferol,
- datrys problemau,
- sgiliau mathemategol.



Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
ET1	Systemau analog a digidol	17.5(35)%	Adwyon, rhesymeg, mapio Karnaugh	Arholiad haf BI. 12
ET2	Cylchedau a chydrannau electroneg	17.5(35)%	Cerrynt, foltedd, gwrthiant, cyflenawadau pŵer	Arholiad haf BI. 12
ET3	Gwaith ymarferol	15(30)%	Cynllunio rhaglenni rheoli	Tasgau erbyn Mai BI 12

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
ET4	Systemau cyfathrebu electroneg	15%	Hidlyddion, radio f.m. trawsyrru data.	Arholiad Ion BI 13
ET5	Cymwysiadau systemau electronig	20%	Microreolyddion Pic, systemau cyflenwad pŵer	Arholiad haf BI 13
ET5	Prif brosiect	15%	Cynllunio, profi ac addasu cylched	Tasg erbyn Mai BI 13

Enw Cyswllt : Mr Gari Thomas

Bwrdd Arholi : 

Pam astudio'r pwnc?

Addas at ddilyn gyrfa mewn nifer fawr o feysydd gwahanol:

- peirianeg,
- pensaernïaeth,
- meddyginiaethau,
- swyddi trydanwyr,
- cyfrifiaduron.



Gofynion mynediad i'r cwrs?

Byddai angen gradd B TGAU o leiaf mewn gwyddoniaeth trifflyg neu ddwbl a B mewn TGAU mathemateg.

Cynnwys y cwrs?

Amrywiaeth o dasgau a sgiliau yn cael eu defnyddio:

- gwaith ymarferol,
- datrys problemau,
- sgiliau mathemategol.

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Mudiant, egni a sylwedd	20%	Cysyniadau mudiant ac egni. Gronynnau sylfaenol. Arsyllu ser	Arholiad allanol
Uned 2	Trydan a golau.	20%	Cysyniadau golau a thrydan. Ffotonau. Lasers.	Arholiad allanol

Blwyddyn 13 – A2

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 3	Osgiliadau a niwclysau	25%	Mudiant cylchol a harmonig. Pelydriad. Gwres.	Arholiad allanol
Uned 4	Meysydd ac optiynau	25%	Meysydd disgrychiant a thrydanol. Meysydd . Anwythiad. Opsiw	Arholiad allanol
Uned 4	Ffiseg arbrofol	10%	Ymchwiliad a dadansoddi data.	Profion - Gwanwyn BI13



Pam astudio'r pwnc?


Mae'r cwrs yn eich galluogi i ddefnyddio'r iaith i gyflwyno safbwyntiau, datblygu dadleuon, dadansoddi a gwerthuso, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Rhydd gyfle i gyfoethogi eich ymwybyddiaeth Ewropeaidd ac i ddatblygu eich gwybodaeth o gymdeithas gyfoes gwledydd lle siaredir Ffrangeg. Mae'r cwrs yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Ffrangeg trwy gyfrwng amrediad o gyrsiau addysg uwch, ar gyfer symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol, neu fynediad uniongyrchol i fyd gwaith.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn cael mynediad i'r cwrs disgwylir i fyfyrwyr fod wedi dilyn a llwyddo yn y cwrs TGAU Ffrangeg.

Cynnwys y cwrs?

Cewch gyfleoedd i ymwneud â'r iaith drwy wrando ar ganeuon, sgysiau a rhaglenni radio, gwylio ffilmiau a chlipiau fideo, cymryd rhan mewn gêmiau iaith ac ymarferion gyda chardiau, cyfieithu o'r Gymraeg ac o'r Ffrangeg, astudio testunau a pharatoi cyflwyniadau llafar. Byddwch yn astudio dwy neu dair ffilm fel rhan o'r cwrs. Disgwylir i chi ddarllen ystod eang o ddeunyddiau yn Ffrangeg ac fe'ch anogir i wneud gwaith ymchwil ar y rhyngwrdd gan ddefnyddio safweoedd ffrenig.



Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Siarad	12%	Dwy drafodaeth ar bynciau wedi eu harwain gan arholwr	Asesiad allanol
Uned 2	Gwrando, darllen a chyfieithu	15%	Gwrando ac ymateb Darllen ac ymateb Cyfieithu o'r Ffrangeg i'r Gymraeg	Asesiad allanol
Uned 3	Dau draethawd	13%	Dau gwestiwn traethawd wedi'u seilio ar ffilm	Asesiad allanol

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 4	Siarad	18%	Cyflwyno project annibynnol a thrafodaeth am gynnwys y project	Asesiad allanol
Uned 5	Gwrando, darllen a chyfieithu	23%	Gwrando ac ymateb Darllen ac ymateb Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Ffrangeg	Asesiad allanol
Uned 6	Dau draethawd	19%	Dau draethawd wedi'u seilio ar un gwaith llenyddol	Asesiad allanol



Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cyrsiau hyn yn cynorthwyo'r myfyrwyr i ddatblygu sgiliau ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc rhwng 0 - 19 mlwydd oed. Mae'n bosib defnyddio'r cymhwyster i gael swydd mewn e.e. ysgolion, ysbytai, creche a'r sector gofal. Mae'r cymhwyster Lefel 3 yn rhoi cyfle i symud ymlaen i astudio cwrs addysg bellach mewn coleg neu brifysgol. Nid oes arholiadau ar ddiwedd y cwrs.



Gofynion mynediad i'r cwrs?

Diploma mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 2

Nid oes angen unrhyw brofiad yn y maes er mwyn dilyn y cwrs ond mae'n rhaid cael diddordeb mewn gweithio gyda phlant. Hefyd bydd angen sgiliau cyfathrebu ac astudio da ar gyfer cwblhau'r aseiniadau ysgrifenedig.

Diploma mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3

Nid oes angen unrhyw brofiad yn y maes i ddilyn y cwrs hwn ond disgwylir i fyfyrwyr ddangos diddordeb mewn gweithio gyda phlant. Rhaid i fyfyrwyr fod wedi ennill TGAU ar radd A*-C yn y Gymraeg ac mewn tri phwnc arall, neu wedi llwyddo yn y Diploma Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Cynnwys y cwrs?

Diploma mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 2

Mae'r cwrs yn cynnwys unedau gorfodol a dewisol yn ymwneud â babanod, plant a phobl ifanc 0-19 oed. Mae'r unedau yn gymysgedd o 'wybodaeth a dealltwriaeth' a 'chymhwysedd a sgil'.

Mae'r unedau'n cynnwys:

- Datblygiad plentyn a pherson ifanc
- Cyfrannu at iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc
- Cyfrannu at gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc trwy chwarae

Diploma mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3

Mae'r cwrs yn cynnwys unedau gorfodol a dewisol yn ymwneud â babanod, plant a phobl ifanc 0-19 oed.

Mae'r unedau yn gymysgedd o 'wybodaeth a dealltwriaeth' a 'chymhwysedd a sgil'.

Mae'r unedau'n cynnwys:

- Deall datblygiad plentyn a pherson ifanc
- Ymarfer proffesiynol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar
- Hyrwyddo dysgu trwy brofiadau i blant
- Gweithio gyda babanod a phlant bach i'w hybu i ddatblygu a dysgu
- Cefnogi dysgu plant yn natblygiad yr iaith Gymraeg

Sut asesir y cwrs?

Cwrs Lefel 2 (Blwyddyn 12)

Byddwch yn treulio un diwrnod yr wythnos yn yr ysgol gyda thiwtor profiadol a tri diwrnod ar brofiad mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.

Asesiad - Fe fydd asesydd yn ymweld â chi yn y lleoliad bob mis i arsylwi a gosod tasgau ysgrifenedig. Er mwyn cymhwyso, bydd angen i chi ennill 39 credyd – 27 credyd o'r unedau gorfodol a 12 credyd o'r unedau dewisol.

Ar ôl ennill y cymhwyster Diploma lefel 2 gallwch ddilyn cwrs Diploma lefel 3.

Cwrs Lefel 3 (Blwyddyn 12)

Byddwch yn treulio un diwrnod yr wythnos yn yr ysgol gyda thiwtor profiadol a tri diwrnod ar brofiad mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.

Asesiad - Fe fydd asesydd yn ymweld â chi yn y lleoliad bob mis i arsylwi a gosod tasgau ysgrifenedig. Er mwyn cymhwyso, bydd angen i chi ennill 65 credyd – 49 credyd o'r unedau gorfodol a 16 credyd o'r unedau dewisol.

Ar ôl ennill y cymhwyster Diploma lefel 3, gallwch gael swydd fel arweinydd Cylch Meithrin, cynorthwydd meithrin mewn ysgol gynradd, cynorthwydd Cyfnod Sylfaen mewn ysgol gynradd, nyrs feithrin neu gynorthwydd meithrin mewn Meithrinfa ddydd. Neu gallwch ddilyn rhan estynedig y cwrs Diploma.

Diploma Lefel 3 Estynedig (Blwyddyn 13)

Byddwch yn astudio am flwyddyn ychwanegol gan dreulio dau ddiwrnod yn yr ysgol a dau/tri diwrnod ar brofiad mewn lleoliad blynyddoedd cynnar. Bydd angen i chi ennill 85 o gredydau ychwanegol o unedau gorfodol a dewisol. Byddwch yn cael eich asesu drwy gyflawni aseiniadau sy'n cael eu marcio'n fewnol neu allanol gan CACHE.

Mae'r flwyddyn estynedig yma'n rhoi pwyntiau UCAS i chi ar gyfer mynediad i addysg uwch i astudio addysg, nyrsio neu waith cymdeithasol.



GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Enw Cyswllt : Mr Daniel Hughes (PAG)

Bwrdd Arholi : edexcel

Pam astudio'r pwnc?

Os hoffech chi ddysgu'r sgiliau, disgyblaeth a'r wybodaeth angenrheidiol i'ch paratoi chi ar gyfer gyrfa yn yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân neu'r Gwasanaeth Ambiwlans mae hwn yn gwrs addas ar eich cyfer. Mae'n gwrs cyffrous ac ymarferol a gallwch ddisgwyl ddysgu mwy am waith tîm, arweinyddiaeth, dinasyddiaeth ac ati. Mae wedi ei gynllunio naill ai eich paratoi ar gyfer gyrfa yn y dyfodol neu eich cynorthwyo i ddatblygu eich addysg ymhellach trwy fynediad i gwrs yn y Brifysgol.



Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae disgwyl bod gan ddisgyblion o leiaf gradd C mewn 5 TGAU. Awgrymir yn gryf bod mantais i fyfyrwyr sydd wedi ennill o leiaf gradd C ym Mathemateg, Saesneg a/neu Chymraeg. Os nad yw'r myfyriwr wedi bodloni'r gofyniad hwn, yna gellir gwneud cais am ystyriaeth arbennig a gwneir penderfyniad ar sail unigol.

Cynnwys y cwrs?

Mae hwn yn gwrs 2 flynedd ac mae'n rhaid cwblhau'r pedwar uned cyn y gellir llwyddo yn y pwnc.

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Llywodraeth, Polisiau a'r Gwasanaethau Cyhoeddus	10 credyd (Gorfodol)	Datblygu dealltwriaeth o lefelau llywodraeth, democratiaeth ac effaith polisiau llywodraeth ar wasanaethau cyhoeddus.	Asesiad mewnol
Uned 2	Arweinyddiaeth a gwaith tîm mewn Gwasanaethau Cyhoeddus	15 credyd	Datblygu dealltwriaeth o arweinyddiaeth a rôl arweinydd tîm.	Asesiad mewnol
Uned 3	Dinasyddiaeth, Cymdeithas Gyfoes a'r Gwasanaethau Cyhoeddus	15 credyd	Datblygu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth, hawliau dynol, materion cyfoes, y cyfryngau a rôl y gwasanaethau cyhoeddus mewn sicrhau hawliau'r unigolyn.	Asesiad mewnol
Uned 4	Undedau dewisol	20 credyd	Mae amrywiaeth o unedau a penderfynir ar y dewis yn ystod y cwrs.	Asesiad mewnol



GWLEIDYDDIAETH A LLYWODRAETH

Enw Cyswllt : Mr Gareth Jones

Bwrdd Arholi : 

Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cwrs yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ymgeiswyr o'r system wleidyddol yng Nghymru ac yn y DU. Datblygwyd un uned, GP2 - Llywodraethu Cymru Fodern, yn benodol i astudio datblygiad sefyllfa wleidyddol Cymru o fewn y DU ers datganoli yn 1997. Mae'r modiwlau ym Mlwyddyn 13 yn canolbwyntio ar y sefyllfa wleidyddol yn yr U.D.A. ac ar theorïau gwleidyddol gwahanol.



Gofynion mynediad i'r cwrs?

5 TGAU Gradd A*-C

Cynnwys y cwrs?

Yn ogystal a dilyn maes llafur y cwrs mae myfyrwyr diweddar wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau megis Senedd Ieuenctid Ewrop, Ffug-Gynhadledd y Deyrnas Unedig ac ymweliadau i'r Cynulliad ym Mae Caerdydd, y Senedd yn San Steffan a'r Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol ym Mrifysgol Aberystwyth.

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Llywodraeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig	/80	Cyfansoddiad Prydain a'r Barnwrfa Senedd a Llywodraeth Prydain Senedd a Llywodraeth Cymru	Papur arholiad 1 awr 30 munud
Uned 2	Byw a chyfranogi mewn democratiaeth	/80	Patrymau Pleidleisio, Systemau Ethol a Refferenda, Pleidiau Gwleidyddol, Grwpiau Pwysedd a Mudiadau Cymdeithasol Newydd Dinasyddiaeth a Hawliau Dynol	Papur arholiad 1 awr 30 munud

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 3	Cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol	/120	Sosialaeth a Chomiwnyddiaeth. Cenedlaetholdeb Rhyddfrydiaeth Ceidwadaeth	Papur arholiad 2 awr 30 munud
Uned 4	Llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA	/120	Etholiadau UDA. Ymddygiad Pleidleisio Pleidiau Gwleidyddol. Y Cyfansoddiad, Gyngres, Yr Arlywydd a'r Goruchaf Lys .	Papur arholiad 2 awr 30 munud



GWYDDOR FEDDYGOL

Enw Cyswilt : Mr Tim Hayes

Bwrdd Arholi : [WJEC](#)
[CBAC](#)

Pam astudio'r pwnc?

Cael chi i feddu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn egwyddorion gwyddonol allweddol a fydd yn eu cefnogi i ddatblygu i addysg uwch neu gyflogaeth mewn meysydd sy'n gysylltiedig â Gwyddor Feddygol, fel swyddi yn y gwyddorau ffisiolegol neu wasanaethau labordy clinigol. Addas ar gyfer astudio Nyrsio, Ffisiotherapi, Therapi Galwedigaethol
OND NID YDYW'N ADDAS AR GYFER MEDDYGAETH neu DDEINTYDDIAETH.



Gofynion mynediad i'r cwrs?

Gradd C neu'n uwch mewn Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol TGAU, neu 2 allan o'r 3 Gwyddoniaeth Triphlyg TGAU.

Cynnwys y cwrs?

Gwyddor Feddygol yw'r wyddor o ymdrin â chynnal iechyd, ac atal a thrin clefydau. Datblygwyd ar gyfer dysgwyr sydd â diddordeb mewn gyrfaedd yn ymwneud â gofal iechyd ac ymchwil feddygol.

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	ASESIAD
Uned 1	Iechyd a chlefydau dynol	25%	Arholiad allanol : Synoptig
Uned 2	Technegau mesur ffisiolegol	12.5%	Asesiad crynodol dan reolaeth : Mewnol
Uned 3	Dulliau ymchwil Gwyddor Feddygol	12.5%	Asesiad crynodol dan reolaeth : Mewnol Summative controlled assessment : Internal
Uned 4	Meddyginaethau a thrin clefydau	25%	Asesiad crynodol dan reolaeth : Mewnol Summative controlled assessment : Internal
Uned 5	Technegau labordy clinigol	12.5%	Aseiniad : Allanol
Uned 6	Astudiaeth achos feddygol	12.5%	Arholiad allanol : Seiliedig ar dair astudiaeth achos



Pam astudio'r pwnc?

Nod y pwnc yw meithrin eich diddordeb a'ch brwdfrydedd ynghlŷn â dealltwriaeth o werth cynhenid a'i arwyddocâd. Yn ogystal â gwella dealltwriaeth o hunaniaeth wahanol o fewn cymdeithas a dirnadaeth o wahaniaethau cymdeithasol, diwylliannol, crefyddol ac ethnig trwy gyfrwng eu hastudiaeth o agweddau ar Hanes Prydain a'r Almaen Natsiaidd.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Nid oes disgwyl i ymgeiswyr fod wedi dysgu unrhyw faes penodol ymlaen llaw, er y bydd llawer o ymgeiswyr wedi meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o rai meysydd o hanes, trwy ddilyn y pwnc ar lefel TGAU.

Pan na fydd yr ymgeisydd wedi sicrhau cymhwyster TGAU mewn hanes, disgwylir iddo/iddi fod wedi ennill cymhwyster cymharol megis TGAU Gradd C yn y Saesneg neu yn y Gymraeg.

Cynnwys y cwrs?

Ceir dau gyfnod penodol eu hastudio:

- Hanes Cymru a Lloegr, tua 1880-1980.
- Yr Almaen Natsiaidd, tua 1933-1945.



Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
HY1	Astudiaeth o Gyfnod	30%	Hanes Cymru a Lloegr 1880-1929 Gwleidyddiaeth Plaid 1900-1940.	Papur arholiad 1 awr 30 munud.
HY2	Astudiaeth Fanwl	20%	Yr Almaen Natsiaidd, tua 1933-1945.	Papur arholiad 1 awr 30 munud

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
HY3	Gwaith Cwrs	20%	Hitler a'r Holocaust.	Traethawd Hir.
HY4	Astudiaeth o Gyfnod a Manwl	30%	Dirwasgiad a Chaledi 1929-1951. Diwygio Cymdeithasol, 1880-1980. Cefnogaeth, Gwrthwynebiad a Gwrthsafiad o fewn y Drydydd Reich.	Papur arholiad 2 awr 30 munud.



Enw Cyswilt : Miss Leony Hall

Bwrdd Arholi : 

Pam astudio'r pwnc?

Mae 60% o'r cwrs yn waith cwrs a dim ond 40% sy'n dibynnu ar yr arholiad. Mae'n gwrs delfrydol, felly, ar gyfer myfyrwyr sydd ddim yn gwneud cystal mewn arholiadau. Mae'n bwnc sydd â sylfaen eang a gall agor drysau at lawer o yrfaedd a chyrtsiau gwahanol.

Gofnion mynediad i'r cwrs?

5 TGAU gradd A*-C (Cymraeg a Saesneg yn hanfodol). Rhaid bod yn berson sy'n barod i weithio'n annibynnol. Bydd ymgeiswyr yn elwa o astudio'r TGAU dwyradd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ond nid yw'n hanfodol gwneud hynny.

Cynnwys y cwrs?

Ym mlwyddyn 12 mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu portffolio sy'n rhoi tystiolaeth o gynllunio, paratoi, gweithredu a gwerthuso ymgyrch fach yn hybu iechyd wedi ei hanelu at grŵp targed penodol. Ym mlwyddyn 13 bydd ymgeiswyr yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig sy'n archwilio canlyniadau diet a rhaglen gweithgareddau corfforol a gynlluniwyd yn arbennig ar ddau unigolyn am isafswm o bedair wythnos.



Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
HSC1	Hybu Gofal o ansawdd a Chyfathrebu	40.0%	➢ Ffactorau'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion, ➢ Egwyddorion gofal Sgiliau a thechnegau gofal, ➢ Cyfathrebu, ➢ Rhwystrau rhag cyfathrebu a gofal o safon, ➢ Hawliau a chyfrifoldebau darparwyr ac unigolion.	Arholiad
HSC 2	Hybu Iechyd Da	60.0%	➢ Persbectifau ar iechyd a lles, ➢ Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles, ➢ Mesurau ataliol i osgoi salwch, ➢ Rolau swydd gweithwyr allweddol mewn Hybu Iechyd, ➢ Technegau a ddefnyddir o fewn Hybu Iechyd.	Portffolio

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
HSC7	Darpariaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant	40.0%	➢ Darpariaeth gwasanaeth yn yr ardal leol, ➢ Cwrdd ag anghenion unigolion, ➢ Rolau ymarferwyr o fewn timau rhyngddisgyblaethol, ➢ Gweithdrefnau sicrhau ansawdd, ➢ Effeithiau polisi a deddfwriaeth genedlaethol ar ddarpariaeth gwasanaeth.	Asesiad o dan rheolaeth
HSC12	Dylanwadau Bwyd a Ffitrwydd ar Iechyd a Lles	60.0%	➢ Y prif faetholion mewn bwyd - eu ffynhonnell a'u swyddogaeth, ➢ Effeithiau cadarnhaol gweithgaredd corfforol ar iechyd corfforol, seicolegol a chymdeithasol unigolion, ➢ Canllawiau gweithgaredd corfforol a deietegol cyfredol a luniwyd i hyrwyddo iechyd y genedl, ➢ Rôl deiet iach a gweithgaredd corfforol cyson ar atal / rheoli rhai clefydau, ➢ Cynllunio deietau addas a rhaglenni gweithgaredd corfforol i unigolion.	Portffolio



Pam astudio'r pwnc?

- datblygu eu dealltwriaeth o Fathemateg a phrosesau mathemategol mewn ffordd sy'n magu hyder ac yn meithrin mwynhad
- ehangu eu hamrediad o sgiliau a thechnegau mathemategol a'u defnyddio mewn problemau anoddach, nad ydynt wedi eu strwythuro
- datblygu dealltwriaeth o gydlynid a dilyniant mewn Mathemateg a sut y gellir cysylltu gwahanol feysydd ym myd Mathemateg
- defnyddio Mathemateg fel ffordd effeithiol o gyfathrebu
- darllen a deall dadleuon mathemategol ac erthyglau sy'n ymwneud â chymhwyso Mathemateg;
- meithrin y sgiliau sydd eu hangen er mwyn medru gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg fel cyfrifiannellau a chyfrifiaduron, gwybod lle y byddai defnydd o'r fath yn anaddas a bod yn ymwybodol o gyfyngiadau
- datblygu ymwybyddiaeth o berthnasedd Mathemateg i feysydd astudio eraill, yn ogystal â'r byd gwaith a'r gymdeithas yn gyffredinol



Gofynion mynediad i'r cwrs?

Gradd B ar y Papurau Haen Uwch yn TGAU

Cynnwys y cwrs?

Mathemateg Bur : mae'r faes yma o fathemateg yn ymestyn y syniadau sydd eisioes wedi eu astudio ar y cwrs TGAU megis algebra, calcwlws a geometreg

Ystadegau: mae'r uned yma yn trafod dosraniadau arwahanol a di-dor ac hefyd astudiaeth o thebygolrwydd

Mecaneg: mae'r uned yma yn astudiaeth o fudiant yn nefnydd bob dydd

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Mathemateg Bur	25%	Syrdiau, Geometreg Cyfesurynol, Differu, Unfathiannau, Integru, Logarithmau, Y Cylch, Radiannau	Arholiad
Uned 2	Ystadegaeth a Mecaneg	15%	Hafaliadau Mudiant, Deddfau Newton, Tebygolrwydd, Diagrammau Venn, Dosraniadau Binomial a Poisson, Setiau data mawr, Hafaliadau mudiant, Deddf Newton, Graffiau teithio	Arholiad

Blwyddyn 13 - A2

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 3	Mathemateg Bur	35%	Differu, Integru, Rheol Simpson, Ffwythiannau, Modwlws, Fectorau, Ffracsiynau Rhannol, Unfathiannau, Cromliniau	Arholiad
Uned 4	Ystadegaeth a Mecaneg	25%	Tebygolrwydd amodol, Profi Rhagdybiaeth Ystadegol, Dosraniad Unffurf a Normal, Momentau, Fectorau	Arholiad



Pam astudio'r pwnc?

- Mae'r cwrs yn eich annog i ddatblygu eich diddordeb mewn ac eich mwynhad o lenyddiaeth ag astudiaethau llenyddol drwy ddarllen yn eang ac yn annibynnol testunau gosod yn ogystal â dewisiadau personol.
- Mae'r cwrs yn sylfaen gadarn ar gyfer dilyn gyrfa yn y maes celfyddydol, newyddiaduriaeth neu unrhyw yrfa sy'n gofyn am sgiliau cyfathrebu, dadansoddol a creadigol cryf.



Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn cael mynediad i'r cwrs disgwylir i fyfyrwyr ennill O leiaf graddau C yn Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg TGAU

Cynnwys y cwrs?

Rhoddir nifer o brofiadau i chi astudio ystod eang o lenyddiaeth Saesneg megis dramâu, barddoniaeth a rhyddiaeth yn ogystal â mireinio sgiliau ysgrifennu creadigol a dadansoddol. Disgwylir i chi ddarllen yn eang ag ymchwilio adolygiadau beirniadol a chyddestunau perthnasol o'r testunau gosod. Trefnir ymweliadau â'r theatr ag i ddarlithoedd ynghyd a thaith i'r Eidal i ymweld â lleoliadau allweddol ym mywyd beirdd

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	Rhyddiaeth a Drama	20%	Adran A: Rhyddiaeth ol-1900 Adran B: Drama	Arholiad allanol
Uned 2	Barddoniaeth ôl 1900	20%	Adran A: Dadansoddiad beirniadol Adran B: Cymharu barddoniaeth	Arholiad allanol

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 3	Barddoniaeth cyn 1900	20%	Adran A: Ymateb i farddoniaeth Adran B: Cymharu barddoniaeth	Arholiad allanol
Uned 4	Shakespeare	20%	Papur arholiad yn seiliedig ar un drama Shakespeare.	Arholiad allanol
Uned 5	Rhyddiaeth	20%	Gwaith cwrs- cymharu dwy nofel.	Asesiad mewnol



Pam astudio'r pwnc?

- Mae'n rhoi'r cyfle i ddysgu iaith sy'n cael ei siarad ar draws y byd. Yn Ewrop, Sbaeneg ydy'r ail iath mwyaf poblogaidd ar ôl Saesneg. Sbaeneg ydy iaith swyddogol 4 cyfandir.
- Byddai dysgu Sbaeneg yn ddefnyddiol ar gyfer gyrfa mewn amrywiaeth o feysydd megis busnes a marchnata, y gyfraith, hamdden a thwristiaeth, y cyfryngau, meddyginiaeth ac ati.
- Mae'n rhoi'r cyfle i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliannau arall.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

- Mae angen i chi fod wedi astudio Sbaeneg i TGAU. Byddai o fantais i fod wedi ennill gradd C neu uwch.

Cynnwys y cwrs?

- Ym mlwyddyn 12 byddwn yn astudio themâu megis problemau pobl ifainc, ysmygu a chyffuriau, bwyta'n iach, byd addysg a thrais yn y cartref.
- Ym mlwyddyn 13 byddwn yn astudio themâu megis mewnfudo, gwleidyddiaeth, terroristaeth a phroblemau amgylfydol.
- Byddwch yn astudio'r themâu yn y sesiynau ym Mhontyberem drwy waith darllen, ysgrifennu a gwrando ac yna byddwch yn ffocysu ar ofynion gramdegol y cwrs ynghyd â pharatoi at yr arholiad llafar yn y gwersi yn yr ysgol.



Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	SN1	20% o'r asesiad terfynol	Llafar : (i) sgwrs gyffredinol. (ii) Sgwrs gyda'r arholwr yn seiliedig ar y topigau a astudir.	Arholiad Llafar gydag arholwr allanol
Uned 2	SN2	30% o'r asesiad terfynol	Arholiad gydag ymarferion gwrando, darllen ac ysgrifennu	Arholiad Allanol

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 3	SN3	20% o'r asesiad terfynol	Llafar: (i) trafodaeth yn seiliedig ar y topigau a astudir. (ii) cyflwyniad ar ffilm.	Arholiad Llafar gydag arholwr allanol
Uned 4	SN4	30% o'r asesiad terfynol	Arholiad gydag ymarferion gwrando, darllen, ysgrifennu a chyfieithu	Arholiad Allanol



Enw Cyswilt : Mr Rhys Jones


Bwrdd Arholi : 

Pam astudio'r pwnc?

- Er mwyn cael sylfaen gadarn i astudio Seicoleg yn y Brifysgol.
- Os oes gennych ddiddordeb ar sut mae'r meddwl yn gweithio.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Bydd y pwnc yn newydd i'r mwyafrif o ddisgyblion ac nid oes disgwyl iddynt gael unrhyw wybodaeth flaenorol, er bod angen dealltwriaeth dda iawn o wyddoniaeth, mathemateg a'r gallu i fynegi syniadau'n glir. Mae agwedd bositif at waith cyson yn angenrheidiol oherwydd bydd nifer o'r cysyniadau a astudiwyd yn anghyfarwydd a bydd angen peth darllen cefndirol annibynnol.



Cynnwys y cwrs?

Byddwch yn astudio cwestiynau fel :

A yw ymennydd llofruddiwr yn wahanol i ymennydd person normal?

A ydy astudio breuddwydion yn gallu helpu gwella problemau iechyd meddyliol?

Ydy hi'n bosib newid cof rhywun am ddigwyddiad trwy ddefnyddio un gair yn unig?

Ydy hi'n iawn i ddefnyddio theory seicolegol i reoli ymddygiad plant?

Byddwch yn astudio sut mae Seicolegwyr yn defnyddio theori gwyddonol i ddarganfod atebion i gwestiynau Seicolegol. Mae hyn yn cynnwys:

- astudio rhai ymchwiliadau pwysig y gorffennol
- astudio technegau stadudol
- astudio methodolegau ymchwil mewn Seicoleg

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	O'r Gorffennol i'r Presennol	20%	Gwaith yn ymwneud â phum ymagwedd mewn seicoleg, therapïau a darnau clasurol o dystiolaeth ymchwil.	Arholiad Ysgrifenedig 1 awr 30 mun
Uned 2	Archwilio Ymddygiad	20%	Canolbwynt yr uned yw ymchwil seicolegol, o'r cynllunio cynnar hyd at y camau olaf o ddadansoddi a gwerthuso. Mae'n ofynnol i ddysgwyr i gynnal hymchwiliad eu hunain.	Arholiad Ysgrifenedig 1 awr 30 mun

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	MARCIAU	CYNNWYS	ASESU
Uned 3	Goblygiadau yn y Byd Go Iawn	40%	Mae'r uned hyn yn edrych ar sut mae Seicoleg wedi cael ei ddefnyddio i ddeall a trin gwahanol ymddygiadau afreolaidd.	Arholiad Ysgrifenedig 2 awr 30 mun
Uned 4	Dulliau Ymchwil Cymhwysol	20%	Uned sydd yn canolbwyntio ar waith ymarferol a fydd yn cael ei gynnal gan y dysgwr yn eu hastudiaethau seicoleg, yn ogystal ag ymdrin â senarios newydd.	Arholiad Ysgrifenedig 1 awr 30 mun



DIPLOMA LEFEL 3: TECHNOLEG GWYBODAETH

Enw Cyswllt : Mr Mark Morris

Bwrdd Arholi : OCR

Pam astudio'r pwnc?

Mae TG wrth wraidd bywyd bob dydd, yn y gwaith, y cartref ac yn ein hamser hamdden: o graffiau cyfrifiadurol a systemau rheoli, i gyfathrebu a datrys problemau, mae gan TG rôl gynyddol i'w chwarae. Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno gyrfa mewn TG, ac ar gyfer myfyrwyr sydd am ennill cymhwyster Lefel 3 i gefnogi astudiaeth bellach mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch mewn maes TG neu mewn unrhyw sector neu faes arall. Mae'r cymhwyster newydd hwn yn arbennig o ddeniadol oherwydd ei berthnasedd byd-eang a'i aliniad agos ag arfer diwydiannol.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae gofyn bod myfyrwyr wedi cael 5 TGAU A* - C TGAU.
Nid yw TGAU TGCh yn angenrheidiol ond mae o fudd.

Cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn cynnig ystod eang o unedau megis Systemau Gwybodaeth datblygu Taenlenni, Cronfeydd Data, systemau cyfrifiadurol, Cynllunio Project ar Planed Clyfar.



Sut asesir y cwrs?

Asesir y cymhwyster hwn drwy waith cwrs. Gall yr holl unedau gael eu hasesu ar adegau perthnasol yn ystod y dwy flynedd. Nid oes unrhyw arholiadau wedi'u hamserlennu. Bydd safonwr yn ymweld a'r ysgol er mwyn safoni eich gwaith.

Caiff y cwrs ei raddio gan ddyfarniad Rhagoriaeth (*Distinction*), Teilyngdod (*Merit*) neu Pasio. Mae'r cymwysterau hyn yn cario pwyntiau UCAS fel y gwelir isod.

Cymhwyster a Phwyntiau UCAS

Cymhwyster (Lefel U2)		Unedau	Pwyntiau UCAS (U2)
OCR Level 3 Cambridge Technical Introductory Diploma	360	6	D* = 56 (A*) D = 48 (A) M = 32 (C) P = 16 (E)



Enw Cyswllt : Mr Euryr Madoc-Jones

Bwrdd Arholi : 

Pam astudio'r pwnc?

Bydd y cymhwyster lefel 3 hyn yn apelio at fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn cyfiawnder troseddol sydd efallai'n ystyried dilyn gyrfa mewn meysydd perthynol.

Gofynion mynediad i'r cwrs?

Gofynnir bod gan y myfyriwr 5 TGAU Lefel A*-C.



Cynnwys y cwrs?

Bydd myfyrwyr yn datblygu sgiliau ymarferol ac academiaidd drwy ddysgu cymhwysol a bydd aseiniadau'n rhoi cyfleoedd i ddysgu am y sector cyfiawnder troseddol wrth astudio troseddeg mewn ffordd ysgogol. Mae hyblygrwydd y cyrsiau'n galluogi'r dysgwyr i arbenigo mewn meysydd o ddiddordeb unigol. Yn ogystal mae'r dull asesu yn cynnwys cyfuniad o brosiectau ac astudiaethau achos, sy'n addas i wahanol arddulliau dysgu. 50% gwaith cwrs a 50% arholiad

Sut asesir y cwrs?

Blwyddyn 12 - UG

UNEDAU	TEITL	CYNNWYS	ASESU
Uned 1	<u>Deall Troseddau</u>	Gwahanol fathau o droseddau Adrodd am droseddau Troseddu yn y Cyfryngau Casglu data am droseddu Creu Ymgyrch	Arholiad
Uned 2	<u>Theori Troseddu</u>	Esboniadau gwahanol am droseddu Effaith y theori hon ar yr heddlu a datblygu polisi	Gwaith Cwrs

Blwyddyn 13 - U

UNEDAU	TEITL	CYNNWYS	ASESU
Uned 3	<u>Ymholi i droseddau</u>	Ymholi i droseddau Prosesu Tystiolaeth Rôl y Llysoedd Defnyddio tystiolaeth	Arholiad
Uned 4	<u>Trosedd a Chosh</u>	Sut mae'r system droseddol yn gweithio Pwrpas cosbi Rheolaeth Gymdeithasol	Gwaith Cwrs





GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

